
ATHROFA PADARN SANT
ST PADARN'S INSTITUTE















# ADRODDIAD BLYNYDDOL

MEDI 2021 - AWST 2022







# CYNNWYS


Rhagair gan yr Esgob Cherry Vann ....3
Cyflwyniad gan y Pennaeth ....3
Trefniadau Llywodraethu a Goruchwylio ....4
Ffurfiant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig ....6
Groeg – cwrs cyfun ....6
Wythnos Cenhadu ac Efengylu'r Gymuned llawn amser ....6
Hyfforddiant Cyd-destunol ....6
Gweinidogion Trwyddedig Newydd ....6
Datblygiad Parhaus i Weinidogion ....7
Cymorth Digidol ac Ar-lein ....7
Gweinidogaeth Digwyddiadau Bywyd ....7
Adolygu Datblygiad Gweinidogol ....7
Cyfeiriad Ysbrydol ....7
Gweinidogion Trwyddedig Lleyg ....8
Cynadleddau Cyn-ymddeoliad ....8
Hyfforddiant ar y Cyd i Dimau o Weinidogion ....8
Cyrsiau Hyforddiant Taleithiol ....8
Rhaglen Israddedigion ....9
BTh Diwinyddiaeth ar gyfer Disgyblaeth Gweinidogaeth a Chenhadaeth ....9
Cyrsiau Ôl-raddedig a Addysgir ....10
MA Diwinyddiaeth, Gweinidogaeth a Chenhadaeth ....10
MA ar gyfer Arbenigwyr Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd ....10
MA Rhaglen y Gaplaniaeth ....10
Ymchwil ....11
Ein Rhaglen Caplaniaeth Ehangach ....12
Dechrau Caplaniaeth ....12
Rhaglen Ddatblygu ar gyfer Caplaniaid y Camlesi (Peilot) ....12
Edrych tua'r Dyfodol ....12
Diwinyddiaeth a'r Gymraeg ....12
Dysgu Cymraeg ....12
Diwinyddiaeth Gymreig ....13
Adnoddau Gweinidogaeth ....14
Adnoddau Dysgu ....14
Cymorth Dysgu ....15
Rhwydweithiau Cenedlaethol ....15
Adnoddau Cymraeg ....15
Rhwydwaith Gweithwyr Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd ....15
Rhwydwaith Arloesi ....16
Prosiectau Arbennig ....17
Cwmni Theatr Riding Lights ....17
Rhaglenni Prentisiaeth ....17
Ehangu Cyfranogiad ....18
Adroddiad y Cyfarwyddwr Gweithrediadau ....19
Staffio ....19
Perthynas Athrofa Padarn Sant gyda Sefydliadau Allanol ....19
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ....20
Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch ....20
Swyddfa'r Arfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch ....20
Prifysgolion Dilysu ....20
Is-adran y Weinidogaeth, Yr Eglwys yn Lloegr ....20
Ffigurau o ran Incwm a Gwariant ....21
Edrych tua 2022-2023 ....22




Mae Athrofa Padarn Sant yn rhan o Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru. Rhif Elusen Gofrestredig: 1142813

# Rhagair gan yr Esgob Cherry Vann

Mae'n bleser gennyf gyflwyno i chi adroddiad blynyddol Athrofa Padarn Sant ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/2022. Mae'n galonogol darllen yn nhudalennau'r adroddiad hwn ehangder rhyfeddol yr hyfforddiant a'r ffurfiant a gynigir gan staff Athrofa Padarn Sant a'r ffyrdd y mae elfennau craidd y ffurfiant hwnnw'n cael eu llunio a'u mireinio i ddiwallu anghenion yr Eglwys ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Yn gynyddol, mae angen i'n clerigwyr a'n harweinwyr lleyg feddu ar ysbryd arloesol sy'n edrych tuag allan, ac sy'n eu galluogi i ymgysylltu'n hyderus fel gweinidogion yr efengyl gyda chymdeithas sy'n dangos llai o ddiddordeb yn y ffydd Gristnogol; boed hynny drwy fusnes craidd gwasanaethau achlysurol neu drwy brosiectau newydd sy'n estyn allan i'r rhai sy'n ymwneud dim â'r eglwys. Fel y mae'r adroddiad hwn yn ei ddangos, mae Athrofa Padarn Sant yn chwarae rhan ganolog wrth roi'r sgiliau i'r Eglwys gyflawni'r dasg hon.

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle hwn i ddiolch i staff Athrofa Padarn Sant am yr ymroddiad a'r brwdfrydedd a roddant i'w gwaith. Gall yr Eglwys yng Nghymru ymfalchïo fod ganddi sefydliad hyfforddi o'r radd flaenaf sy'n meithrin gweinidogion ar gyfer y cyd-destunau sy'n unigryw Gymreig y cânt eu galw i'w gwasanaethu.



**Y Gwir Barchedig Cherry Vann,**
Esgob Mynwy

# Cyflwyniad gan y Pennaeth

Am fwynhad a gawsom wrth ddod ynghyd wyneb yn wyneb unwaith eto! Ar ôl dwy flynedd y tarfwyd arnynt yn ddifrifol gan COVID-19, buan iawn y llwyddwyd i'w roi i'r neilltu fwy neu lai, er ei fod yn dal i fwrw ei gysgod ar ddechrau'r flwyddyn. Yn ymarferol, roedd hyn yn golygu y gallai cyfleoedd dysgu unwaith yn rhagor fod yn wyneb yn wyneb, boed hynny yng nghyd-destun ffurfiant ar gyfer gweinidogaeth drwyddedig, cynadleddau ar gyfer gweinidogion lleyg trwyddedig, neu ein rhaglenni MA arbenigol. Ond mae'n fwy na hynny. Yn sgil COVID, bu pwysau mawr ar ein staff – fel y bu pwysau ar draws y gymdeithas – a tharfwyd ar y cydweithio a fu gyda'r eglwys yn ehangach sydd o fewn cylch Athrofa Padarn Sant. Mae modd parhau â busnes yn ddigidol, ond mae cymaint yn haws deall yn iawn beth y mae eraill yn ei ddweud pan fyddwch chi yn yr un ystafell.

Os ydych chi'n darllen yr adroddiad yma, cewch gipolwg ar waith y sefydliad yn ei holl amrywiaeth, wrth iddo geisio chwarae ei ran yng nghenhadaeth a gweinidogaeth yr Eglwys. O fewn hyn oll, byddwn yn tynnu sylw at bum peth rhwng 2021-2022. Yn gyntaf, llwyddom i wella ein cefnogaeth yn sylweddol i'r sawl sydd ag anableddau dysgu. Mae hwn yn faes hollbwysig. Mae gan lawer yn ein cymdeithas a'n heglwysi ystod o'r hyn y gallai rhywun ei alw'n fras yn 'anghenion dysgu ychwanegol' neu 'wahaniaethau dysgu penodol', ond 'anableddau dysgu' yw'r iaith a ddefnyddir yn y byd addysg, a hynny'n cwmpasu popeth o golli clyw hyd at gyflyrau iechyd meddwl hirdymor a gwahaniaethau fel dyslecsia. Rydyn ni'n gweld bod tua 20% o'n dysgwyr ag anableddau dysgu o ryw fath, ac rydyn ni'n gwella gryn dipyn yn y ffordd rydyn ni'n gweithio gyda nhw, ac yn gallu manteisio ar gyllid sylweddol gan y Llywodraeth i'w cefnogi.

Yn ail, rydym wedi dechrau mynd i'r afael â'r her sero-net, ac wrthi'n ystyried yn ehangach sut fel sefydliad diwinyddol y gallwn gyfrannu at agenda'r Eglwys – o dyfu bwyd ar y safle a lleihau teithio, i fynd i'r afael â'n system wresogi ac addysgu am ddiwinyddiaeth amgylcheddol. Yn drydydd, gan ddilyn y cyfeiriad a osodwyd gan ein Harchesgob newydd, ac a ategwyd gan Gorff y Cynrychiolwyr, rydym yn parhau â'r 'gwyriad' tuag at genhadu ac efengylu. Mae ffurfiant yn cynnwys llawer o elfennau o astudiaethau Beiblaidd i ysbrydolrwydd, o weddïo i bregethu, ac mae pob un o'r pethau hyn yn parhau i fod yn hanfodol, ond rydym yn edrych yn barhaus ar sut y gallwn alinio'r hyn a wnawn â ffocws cenhadu ac efengylu'r Eglwys.

Mae unrhyw sefydliad neu grŵp cydweithredol o bobl angen ymdeimlad parhaus o bwrpas a chyfeiriad i lywio eu bywyd a chymell eu gwaith. Gan hynny, yn bedwerydd, ar gais Mainc yr Esgobion cafodd cyfarwyddyd strategol ei ddrafftio ar gyfer Athrofa Padarn Sant ar gyfer 2022-28, gan asio gyda'r trafodaethau mewn mannau eraill yn yr Eglwys yng Nghymru ynghylch gweledigaeth a chyfeiriad. Yn olaf, am mai Athrofa Padarn Sant yw'r unig goleg diwinyddol o fewn yr Eglwys yng Nghymru, mae'n bwysig cael adolygiadau allanol rheolaidd o'n gwaith, er mwyn i'r Eglwys fod yn hyderus bod Athrofa Padarn Sant yn cymharu'n gadarnhaol ag unrhyw goleg diwinyddol yn y DU, ac i dynnu sylw at feysydd i'w gwella a'u datblygu ymhellach. Daw rhai o'r rhain drwy ein partneriaeth â phrifysgol a'n rheoleiddwyr Addysg Uwch. Fodd bynnag, comisiynwyd adolygiad allanol cyfnodol gan y Panel Ansawdd mewn Ffurfiant sy'n cynnal adolygiadau o golegau diwinyddol ledled y DU ar gylch chwe blynedd, yn bennaf ar gyfer yr Eglwys yn Lloegr, ond hefyd ar gyfer enwadau eraill. Mae'n edrych yn benodol ar faterion fel ffurfiant, arweinyddiaeth, ysbrydolrwydd a pharatoi ar gyfer y weinidogaeth. Cynhaliwyd yr adolygiad ym mis Hydref 2022.



**Yr Athro Ganon Jeremy Duff,**
Pennaeth

# Trefniadau Llywodraethu a Goruchwylio


Mae trefniadau llywodraethu a goruchwylio cryf a chlir yn hanfodol ar gyfer iechyd Athrofa Padarn Sant, ac i sicrhau ei fod yn cyd-fynd yn llwyr ag anghenion yr Eglwys. Sylfaen hyn yw'r atebolrwydd i Fainc yr Esgobion a Chorff y Cynrychiolwyr. Mae ein hesgobion yn gosod y cyfeiriad strategol, a'r pennaeth yn cyfarfod yn rheolaidd gyda'r Fainc, ac yn unigol gyda phob esgob ddwywaith y flwyddyn. Corff y Cynrychiolwyr sy'n gyfrifol am y ffordd y caiff Athrofa Padarn Sant ei gweithredu. Mae cyllid yr athrofa yn rhan integredig o gyllid Corff y Cynrychiolwyr; mae Corff y Cynrychiolwyr yn cymeradwyo ei gynllun busnes a'i gyllidebau. Mae holl staff Athrofa Padarn Sant yn cael eu cyflogi gan y Corff Cynrychiolwyr.

Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd ystyriaeth bellach i ble y gellid mynegi orau 'lais yr esgobaeth' - sy'n hanfodol ar gyfer Athrofa Padarn Sant - a dwyn y lleisiau esgobaethol ynghyd fel un. Penderfynwyd mai un o swyddogaethau allweddol Mainc yr Esgobion oedd hon. O ganlyniad llwyddwyd i esblygu'r pwyllgor Hyfforddi, Ffurfio a Datblygu Gweinidogol fel ag yr oedd i fod yn Banel Ansawdd a Safonau newydd. Nid oedd angen bellach iddo fod yn lle ar gyfer trafodaethau rhyng-esgobaethol (a oedd, yn briodol, yng nghylch gwaith yr esgobion) ac felly gallai ganolbwyntio'n llawnach ar oruchwylio ansawdd a safonau ac ysgogi gwelliannau a gwelliant parhaus. Penodwyd yr Athro Claire Taylor, Dirprwy Is-Ganghellor Prifysgol Glyndŵr, ac aelod o'r Eglwys yng Nghymru, i gadeirio'r panel, a phenododd y Fainc, aelodau eraill ag arbenigedd a phrofiad yn y weinidogaeth ac addysg. Mae dau aelod o Gorff y Cynrychiolwyr hefyd ar y panel, a hynny oherwydd eu harbenigedd, ond hefyd i sicrhau cysylltiad da â Chorff y Cynrychiolwyr.

Ochr yn ochr â hyn, mae Bwrdd Gweithredol Athrofa Padarn Sant - sef yr Esgob sy'n dal Portffolio'r Weinidogaeth (Esgob Mynwy ar hyn o bryd), Prif Weithredwr Corff y Cynrychiolwyr, ac Uwch Dîm Arwain Athrofa Padarn Sant - yn parhau i gyfarfod bob mis er mwyn sicrhau bod Athrofa Padarn Sant yn gweithio'n llyfn fel rhan nodweddiadol ond integredig o'r Eglwys yng Nghymru.

# Ffurfiant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig

Mae'r rhaglen Ffurfiant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig yn Athrofa Padarn Sant yn cynnwys pedair elfen wedi eu cynllunio i alluogi ymgeiswyr ar gyfer y weinidogaeth yn yr 21ain ganrif. Ein harwyddair ar gyfer y rhaglen yw 'ffurfiant integredig' gan ein bod yn credu bod yr holl gydrannau'n bwysig ac yn cyd-blethu â'i gilydd. Mae'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn dilyn y cwrs Diwinyddiaeth ar gyfer Bywyd (ein BTh sydd wedi'i ddilysu gan Brifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant) a ennill diploma a gradd mewn cwrs a ddyluniwyd yn arbennig i gysylltu diwinyddiaeth â bywyd bob dydd a dirnadaeth. Yn achlysurol bydd ymgeiswyr yn astudio ar gyfer gradd Meistr (wedi'i dilysu gan Brifysgol Durham). Mae'r ddau gwrs yn integreiddio diwinyddiaeth a materion ymarferol ac yn cynnig amrywiaeth o fodiwlau sy'n astudio'r Beibl, moeseg, ymarfer, cenhadaeth a gwahanol ffurfiau ar ddiwinyddiaeth gyd-destunol a chyfoes.




Mae yna ddull integreiddiol arall yn ein rhaglen o gyfnodau preswyl o'r enw Diwinyddiaeth ac Ymarfer y Weinidogaeth lle mae ymgeiswyr yn dysgu am ddiwinyddiaeth ynghyd â phregethu, arwain sesiynau addoli, gweithio gyda phob oedran, gofal bugeiliol, arloesi a chenhadaeth.

Elfen bwysig ac arloesol o'r rhaglen ffurfiant ar gyfer y weinidogaeth drwyddedig yw'r gell ffurfiannol, lle mae ymgeiswyr yn myfyrio mewn grŵp gydag arweiniad hyfforddedig ar eu ffurfiant, a hynny mewn modd integredig. Gan fod y rhan fwyaf o'r drafodaeth ynghylch ffurfiant a'r rhan fwyaf o ddysgu diwinyddol yn digwydd mewn lleoliad grŵp yn Athrofa Padarn Sant, rydym yn pwysleisio arferion da wrth gydweithio o ddechrau eu taith ffurfiannol.

Yn olaf, rydym yn rhoi llawer o bwyslais ar ddysgu cyd-destunol (ar leoliad) lle mae'r dysgu (yn enwedig yn y cyfnodau preswyl) yn cael ei gymhwyso ar lefel ymarferol. Mae ein Tiwtor Dysgu Cyd-destunol yn gweithio'n agos gyda goruchwylwyr hyfforddiant i sicrhau bod ein hymgeiswyr yn cael hyfforddiant da, cyfleoedd, ac adborth wrth ymarfer eu sgiliau. Mae pob ymgeisydd llawn amser yn treulio deuddydd ar leoliad, ac mae ymgeiswyr rhan-amser yn treulio o leiaf bedair awr ar leoliad.

Mae'r holl weithgareddau hyn yn destun myfyrdod gyda thiwtor ar ddiwedd pob tymor, a bydd hyn yn herio ymgeiswyr wrth feithrin eu cymeriad, eu doethineb a'u hysbrydolrwydd – mewn geiriau eraill, eu trawsnewidiad i debygrwydd Crist. Mae gweddïo ac addoli'n sylfaen i'r cyfan a wnawn.

Roedd yn bleser cael dychwelyd i sesiynau wyneb yn wyneb eleni, er bod ein dysgu yn ystod y cyfnod clo yn golygu ein bod yn gallu gwneud penderfyniadau effeithiol ynghylch pa nodweddion ar-lein i'w parhau, yn enwedig mewn perthynas â'r dull rhan-amser o addysgu. Mae'r holl gelloedd ffurfiannol ar gyfer ymgeiswyr rhan-amser yn dal i gael eu cynnal, yn ogystal â grwpiau

| Oedran yn dechrau hyfforddi | 20-29 | 30-39 | 40-49 | 50-59 | 60-69 | 70+ | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflogedig** | | | | | | | |
| Dynion | 2 | 4 | 1 | 0 | 1 | 0 | **8** |
| Menywod | 5 | 2 | 5 | 4 | 0 | 0 | **16** |
| **Di-Dâl** | | | | | | | |
| Dynion | 0 | 2 | 0 | 3 | 1 | 1 | **7** |
| Menywod | 0 | 0 | 3 | 6 | 8 | 4 | **21** |




dysgu Diwinyddiaeth ar gyfer Bywyd ar-lein ac roedd hyn yn ddefnyddiol i alluogi ymgeiswyr rhan-amser i gydbwyso eu holl gyfrifoldebau gyda'u hyfforddiant drwy leihau amser teithio. Mae cael grwpiau nad ydynt yn ddaearyddol hefyd yn arwain at fwy o amrywiaeth ymhlith ymgeiswyr mewn grwpiau gan ein galluogi i gael grwpiau Cymraeg yn ogystal â rhai Saesneg, ac mae'n well i'r amgylchedd.

Ar hyn o bryd mae yna 28 o ymgeiswyr yn hyfforddi ar gyfer Gweinidogaeth di-dâl a 24 o ymgeiswyr yn hyfforddi ar gyfer Gweinidogaeth cyflogedig. Mae'r duedd tuag at niferoedd uwch o ymgeiswyr benywaidd yn parhau, ac eleni roedd traean o'n hymgeiswyr cyflogedig yn ddynion a dwy ran o dair yn fenywod. Roedd 75% o Weinidogion Di-dâl yn fenywod. Er bod yr oedran cyfartalog ar gyfer gweinidogion di-dâl yn parhau i fod yn uchel, mae bron i draean o'r rhai sy'n hyfforddi ar gyfer gweinidogaeth daledig o dan 30 oed – mae'r newid hwn yn deillio o fuddsoddiad yr Eglwys yng Nghymru mewn Eglwysi Adnoddau (Resource Churches).

Prif thema'r ysgol haf yn ystod y cyfnod hwn oedd Ysbrydolrwydd, a da oedd gallu croesawu Dominic Mclean a'r Archddiacon Mones Farah i siarad ar y pwnc ar lefel bersonol yn ogystal â rhannu gwahanol fathau o weddi y gall yr ymgeiswyr eu hymgorffori yn eu gweddïau yn ogystal â'u dysgu i eraill. Yn ystod y preswylfeydd dros y penwythnos, yn ogystal ag aelodau o'n tîm tiwtora ni, roedd y siaradwyr yn cynnwys Mandy Bayton a Chloe Axford yn trafod pynciau megis Cyfathrebu Iachawdwriaeth a Chynnal Gweinidogaeth Ffrwythlon. Wrth symud ymlaen, bydd ein themâu yn cyd-fynd â blaenoriaethau gweinidogaeth y Fainc Esgobion newydd, ac yn ystod y flwyddyn fe wnaethon ni ddatblygu'r blaenoriaethau hyn yn ddeilliannau dysgu ar gyfer trwyddedu / ordeinio. Dyma'r deilliannau:

- Ymddiriedaeth, diogelwch a ffydd aeddfed
- Gweithio mewn tîm
- Creadigol a hyblyg gan allu addasu
- Yn meddu ar sylfaen eglwyseg ac ysbrydolrwydd Anglicanaidd
- Cenhadol gydag ymrwymiad i dyfu
- Arweinwyr strategol

Eleni, gwnaethom hefyd sefydlu ein cwricwlwm cymysg newydd ar gyfer diwinyddiaeth ac ymarfer y weinidogaeth, sy'n cael ei ddysgu yn ystod cyfnodau preswyl. Yn hytrach na chanolbwyntio ar un pwnc drwy gydol y flwyddyn, mae ymgeiswyr bellach yn gweithio mewn carfan ac yn dysgu sgiliau sylfaenol yn y flwyddyn gyntaf ym mhob maes o'r weinidogaeth – pregethu, arloesi, gofal bugeiliol, gweithio gyda phob oedran, ac yna parheir i adeiladu ar y sgiliau hyn drwy gydol eu hyfforddiant.



Y Rhaglen Llawn Amser: Fe wnaeth y gymuned llawn amser elwa o sesiynau ysbrydoledig ac addysgiadol ar Arwain Eglwysi Iach gan siaradwyr gwadd ar bynciau megis y weinidogaeth wledig, cyfeiriad ysbrydol, datblygu galwedigaethau, ac allgymorth â chymunedau lleiafrifoedd ethnig a chydweithio â chymunedau lleiafrifoedd ethnig. Yn yr hydref, croesawodd y gymuned Dr Michael Burdett (Prifysgol Nottingham) i gynnal darlith hynod ddiddorol gyda'r nos ar Dechnoleg a Dyfodol Trawsnewid Dynol. Wrth i ni agosáu at y Nadolig, cymerodd y gymuned amser llawn ran yn seremoni leol yn cynnau goleuadau Nadoligaidd Llandaf, gan arwain carolau a chynnig gweddïau dros y sawl a ddaeth ynghyd. Ar 1 Rhagfyr, cynhaliodd y gymuned hanner noson o weddïau (6:30pm-10:30pm), gan weddïo dros anghenion y gymuned, yr Eglwys yng Nghymru, a phobl/lleoedd yng Nghymru. Roedd y gymuned yn bwriadu cynnal encil wedi ei thywys ar ddydd Mercher Lludw (dan arweiniad Jeremy Duff), ond yn sgil y rhyfel yn Wcráin, cynhaliwyd yn hytrach ddiwrnod o weddi gan ganolbwyntio ar bobl Wcráin, gan orffen gyda gwylnos â chanhwyllau y tu allan i'r gadeirlan.

## GROEG – CWRS CYFUN

Eleni, llwyddom i addysgu Groeg y Testament Newydd, a addysgwyd yn y cnawd yn y lle cyntaf ac ar-lein i'r ymgeiswyr rhan-amser neu llawn amser a ddewisodd ddilyn y cwrs. Roedd hyn yn gweithio'n dda, fodd bynnag, penderfynwyd wrth i'r cwrs fynd yn ei flaen y byddem yn symud ar-lein yn llwyr. Roedden ni'n cwrdd bob pythefnos ac yn gweithio drwy gyfrol Jeremy Duff, Elements of New Testament Greek. Defnyddiodd y tiwtor Dr Elizabeth Corsar ddull o ddefnyddio'r ystafell ddosbarth i ofyn cwestiynau'n unig a chynnal trafodaethau gyda'r tiwtor – roedd disgwyl i'r dysgwyr ddarllen y deunyddiau priodol ymlaen llaw. Dywedodd ei bod hi'n falch iawn o'r cynnydd a wnaed gan yr ymgeiswyr, a'u gallu i gyfieithu gyda geiriadur y Testament Newydd mewn Groeg.

## WYTHNOS CENHADU AC EFENGYLU, Y GYMUNED LLAWN AMSER

Ym mis Mehefin 2022, treuliodd tîm o Athrofa Padarn Sant wythnos yn cydweithio â grŵp o eglwysi Bro Teifi yn Aberteifi. Cyn COVID, roeddem wedi anfon timau i Gaerdydd ac Abertawe, felly roedd yn wych cael y cyfle i wasanaethu yn esgobaeth Tyddewi a rhoi blas ar y weinidogaeth i'r ymgeiswyr yng Ngorllewin Cymru. Fe wnaeth yr eglwysi lleol letya'r tîm, a gyda'n gilydd fe wnaethom gynnal digwyddiadau drwy gydol yr wythnos gan gynnwys diwrnod hwyliog i'r teulu, sawl noson grefyddol, parti te jiwbilî a lansiad Cwrs Alffa, ac roedd pob un o'r rhain yn rhoi cyfle i rannu ffydd. Cawsom gwmni efengylwyr o'r Pedwerydd Archddiaconiaeth yn Nhyddewi a fu'n gweithio ochr yn ochr â thîm Athrofa Padarn Sant a helpu i sefydlu'r gwaith cenhadu mewn ffordd a fyddai'n dod yn gynaliadwy yn barhaus wedi i'r tîm adael. Gweithiodd yr ordinandiaid yn galed, ac fe'u gwthiwyd ychydig ymhellach, ac felly fe dyfon nhw yn eu hyder a'u hymddiriedaeth yn Nuw ac wrth rannu eu ffydd, yn ogystal â gweld yr eglwysi lleol yn cael eu hysbrydoli.

## HYFFORDDIANT CYD-DESTUNOL

Mae ystyried cyd-destun lleoliadau wrth wraidd yr hyfforddiant ar gyfer y weinidogaeth drwyddedig yng Nghymru. Mae ymgeiswyr ar gyfer y weinidogaeth yn ymroi cyfran sylweddol o'u hwythnos i'r weinidogaeth a'r genhadaeth ar lawr gwlad o fewn ardaloedd y weinidogaeth leol, gan ddefnyddio'r profiad hwn i lywio eu dysgu yn y dosbarth, yn union fel y mae eu haddysg ddiwinyddol yn llywio sut y maent yn ymarfer y weinidogaeth. Mae eu profiad, a'u myfyrdod diwinyddol ar y profiad hwnnw, yn cyfrannu at asesiadau ffurfiol yn ogystal ag at broses adrodd Athrofa Padarn Sant, ac rydym yn annog lleoliadau i ddefnyddio'r ymgeiswyr fel aelodau llawn o'u timau gweinidogaeth.

Un datblygiad eleni yw bod gofyn bellach i bob ymgeisydd blwyddyn gyntaf ar gyfer y weinidogaeth lunio a chyfrannu at brosiect efengylu arloesol fel rhan o'u Hyfforddiant Cyd-destunol.

Mae ein hymgeiswyr ar gyfer y weinidogaeth eisoes yn arddangos agweddau arloesol, a'r gobaith yw manteisio ar y rhodd ysbrydol yma a datblygu hyder, diwylliant o arloesi, efengylu, ac arloesedd ymhlith darpar-arweinwyr ein heglwysi. Rhoddir hyfforddiant priodol i ymgeiswyr er mwyn galluogi'r twf yma. Mae Athrofa Padarn Sant yn parhau i fod yn hynod ddiolchgar am letygarwch goruchwylwyr lleoliadau a'u buddsoddiad yng ngweinidogion y dyfodol yng Nghymru, ac rydym yn trafod y ffordd orau i barhau i ddatblygu ein cefnogaeth a'n hyfforddiant i oruchwylwyr.




# Gweinidogion Trwyddedig Newydd

**Mae ein rhaglen i Weinidogion Trwyddedig Newydd yn chwarae rhan allweddol wrth helpu i greu gweinidogion o safon yng Nghymru a fydd yn mynd ymlaen i greu disgyblion i Iesu ym mhob cymuned.**

Mae'r rhaglen i Weinidogion Trwyddedig Newydd ar gyfer pawb sydd wedi'u trwyddedu i'r Eglwys yng Nghymru, nid dim ond y sawl sy'n ordeiniedig. Mae'r niferoedd yn 2022 yn is na blynyddoedd blaenorol er bod traean o'r Gweinidogion Trwyddedig Newydd Cyflogedig yn dod o'r tu allan i Gymru. Fodd bynnag, nid yw hwn yn faes y mae gan Athrofa Padarn Sant reolaeth drosto, ac mae'r rhan fwyaf o'r bobl yn y rhaglen Gweinidogion Trwyddedig Newydd yn cyfateb i'r rhai a gafodd eu cyflwyno i gael hyfforddiant gan ein Hesgobion rai blynyddoedd ynghynt. Fodd bynnag, gyda bron i draean o'n Gweinidogion Trwyddedig Newydd yn dod o'r tu allan i Gymru, roedd angen gwaith pellach i sicrhau bod y sawl a oedd yn gwneud eu hyfforddiant cychwynnol yn Lloegr yn teimlo'n rhan o gymuned hyfforddi'r Gweinidogion Trwyddedig Newydd a'u bod yn deall diwylliant a thraddodiadau Cymru.

Mae'r rhaglen i Weinidogion Trwyddedig Newydd wedi tyfu a datblygu dros y pum mlynedd diwethaf. Mae bellach wedi'i rhannu'n ddwy ran benodol; y cyfnod craidd sy'n para dwy flynedd ar ôl ordeinio a/neu drwyddedu, ac sydd ar gyfer pawb y mae'r esgobion yn eu trwyddedu ledled Cymru, a'r cyfnod trosiannol sy'n dechrau ar ddiwedd y cyfnod craidd, yn para am ddwy flynedd, ond ar gyfer y sawl a fydd yn dal swyddi cyflogedig. Mae'r cyfnod hwn yn hynod werthfawr o ran y mewnbwn a roddwyd dros y cyfnod hwn, ond hefyd oherwydd ei fod yn gyfle i gael cymorth a rhannu arfer da wrth i'n gweinidogion ddechrau yn eu swyddi o gyfrifoldeb cyntaf.

Mae'r cyfnod craidd yn ystyried Cyfathrebu Trawsnewidiol, Gweinidogaeth i Bobl Ifanc, Plant a Theuluoedd, Cenhadu, Efengylu a Datblygiad Cymunedau Cristnogol Newydd, Trawsnewid Gwrthdaro Eglwysig wrth ddod yn Offeiriad, a Datblygu fel Arweinydd. Nid yw'r cyfnod pontio sy'n rhan o flynyddoedd 3 a 4 y rhaglen i Weinidogion Trwyddedig Newydd ond yn orfodol ar gyfer Offeiriaid Cyflogedig. Gall pob Gweinidog Trwyddedig Newydd arall fynychu, ond dim ond gyda chaniatâd penodol eu Hesgob, er y byddem yn disgwyl y gofynnir i'r rhai sy'n debygol o fod mewn swyddi o arweinyddiaeth gyffredinol neu sylweddol fod yn bresennol. Mae cyrsiau'r cyfnod pontio yn trafod gwytnwch, rheoli newid, sefydlu diwylliant ar gyfer twf, pwysigrwydd cenhadu ac efengylu, datblygu timau ar draws Ardal Gweinidogaeth/Cenhadaeth, llunio strategaeth, a datblygu a chyflwyno gweledigaeth.




# Datblygiad Parhaus i Weinidogion

**Mae holl weinidogion Cymru, yn lleyg ac yn ordeiniedig, yn cael eu hannog yn gryf i gynnal diwylliant o ddysgu gydol oes. Mae Athrofa Padarn Sant yn gweithio'n agos gyda chwe esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru i ddarparu rhaglen gadarn ar gyfer Datblygiad Parhaus i Weinidogion, sy'n cynnwys dau faes:**

- Mae Athrofa Padarn Sant yn gyfrifol am hyfforddiant taleithiol, neu hyfforddiant sy'n gyffredin ar draws pob esgobaeth. Enghraifft o hyn fyddai cynnal cwrs cyn-ymddeol ar gyfer y sawl a fyddai'n gwerthfawrogi cymorth a chyngor wrth gynllunio ar gyfer hynny
- Mae esgobaethau'n cynnig diwrnodau Datblygiad Parhaus i Weinidogion ychwanegol i'w clerigwyr, fel arfer lleiafswm o bedwar diwrnod, sy'n adlewyrchu orau eu hamryfal gyd-destunau, eu hanghenion a'u gweledigaethau unigol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â Covid-19 wedi dechrau lleihau, ond serch hynny maent wedi parhau i gyflwyno heriau sylweddol a chymhleth, ac wedi siapio'r ffyrdd y mae Athrofa Padarn Sant wedi gallu darparu hyfforddiant ac adnoddau i weinidogion ac eglwysi.

### CYMORTH DIGIDOL AC AR-LEIN

Er i eglwysi ailagor eu drysau'n raddol, mae'r galw am weinidogaeth ar-lein a digidol wedi parhau'n gryf, gyda llawer o eglwysi'n wynebu'r her o ailgyflwyno gwasanaethau rheolaidd yn y cnawd a hwythau'n cynnal niferoedd cryf ar-lein.

Mae'r storfa helaeth o weminarau a gynhaliwyd ac a gofnodwyd ar anterth y cyfnodau clo yn parhau i fod ar gael i'w gweld ar wefan Athrofa Padarn Sant, ac yn parhau i gynnig llawer iawn o gymorth ymarferol.

### GWEINIDOGAETH DIGWYDDIADAU BYWYD

Wrth i gyfyngiadau Covid barhau i lacio, o'r diwedd roedd modd cyflwyno'r rhaglen Digwyddiadau Bywyd ledled y dalaith gyda phob esgobaeth yn cynnal digwyddiad lansio.

Mae dros gant ac ugain o dudalennau o adnoddau a syniadau ar-lein bellach ar gael i'w cyrchu drwy wefan Athrofa Padarn Sant, ynghyd â dwy gyfres o chwe fideo sy'n cynnig cymorth ymarferol, cefnogaeth a chyngor i annog gweinidogion ac eglwysi i ddefnyddio gweinidogaeth Digwyddiadau Bywyd fel prif ffocws wrth groesawu, ac efengylu.

Mae'r rhaglen Digwyddiadau Bywyd ac adnoddau wedi'u croesawu'n eang, ac mae adborth o'r digwyddiadau lansio wedi bod yn hynod gadarnhaol.

Gyda'r tudalennau Digwyddiadau Bywyd ar wefan Athrofa Padarn Sant bellach wedi'u cwblhau, mae gwaith bellach wedi dechrau i ddiweddaru tudalennau Digwyddiadau Bywyd ar wefan yr Eglwys yng Nghymru. Y nod yw gwneud yr adran hon o'r wefan yn fwy hygyrch gan edrych tuag allan, gyda phwyslais ar stori bersonol a chysylltiad cadarnhaol â'r Eglwys yng Nghymru a'i gweinidogaeth Digwyddiadau Bywyd. Cwblhawyd y gwaith hwn yn ystod hydref 2022.

## ADOLYGU DATBLYGIAD GWEINIDOGION

Lansiwyd rhaglen Adolygu Datblygiad Gweinidogion newydd yr Eglwys yng Nghymru yn 2021, ac erbyn hyn mae'n cael ei defnyddio'n llawn gan bob un o'r chwe esgobaeth. Yn wir, yn 2022 mae pob un ond un o'r esgobaethau bellach ar eu hail gylch adolygu, ac mae adborth yn parhau'n gadarnhaol o ran y cynllun o ran cyflawni ei amcanion craidd.

Ar gais Mainc yr Esgobion, mae Athrofa Padarn Sant yn parhau i fonitro'r defnydd o'r rhaglen ar draws y dalaith, ac yn coladu data ar Adolygiadau Datblygiad Gweinidogion a gwblhawyd gan esgobaethau bob chwarter. Mae'r gyfres o fideos hyfforddi ac adnoddau ar gyfer hyfforddi Adolygwyr yn parhau i fod ar gael drwy wefan Athrofa Padarn Sant.



## CYFEIRIAD YSBRYDOL

Arweiniwyd gwasanaeth o ddiolchgarwch a dathlu gan yr Esgob (Archesgob erbyn hyn) Andrew yn Athrofa Padarn Sant fis Medi diwethaf. Cafodd pawb a fynychodd y cwrs taleithiol ar Gyfeiriad Ysbrydol ac a gwblhaodd yr aseiniadau'n llwyddiannus eu cydnabod, a chyflwynwyd tystysgrif iddynt. Ers hynny mae llawer o'r rhai a gwblhaodd y cwrs blwyddyn o hyd wedi cynnig eu hunain fel cyfarwyddwyr ysbrydol i'w priod esgobaethau gan ehangu ymhellach y gronfa o gyfarwyddwyr ysbrydol sydd ar gael ar draws yr Eglwys yng Nghymru, sef un o'n hamcanion allweddol.

## GWEINIDOGION TRWYDDEDIG LLEYG

Mae Athrofa Padarn Sant yn trefnu cynhadledd bob hydref a digwyddiad ar-lein bob gwanwyn. Mae hyn yn golygu, ynghyd â digwyddiadau esgobaethol, y bydd Gweinidogion Trwyddedig Lleyg ar draws yr Eglwys yng Nghymru yn cael eu gwahodd i o leiaf bedwar digwyddiad y flwyddyn. Y gobaith yw y bydd hyn yn parhau i feithrin gwell ymdeimlad o gydlyniant a rhwydweithio ymhlith Gweinidogion Lleyg Trwyddedig ar draws y dalaith, yn ogystal â chynnig cymorth a chefnogaeth wedi'i dargedu'n rheolaidd.

Cynhaliwyd Cynhadledd Gweinidogion Lleyg Trwyddedig 2021 yn Wrecsam fis Medi diwethaf. Gyda'r teitl 'Rhan o'r Corff', arweiniodd Sandra Millar (Digwyddiadau Bywyd), Carrie Myers (Cydlynydd Gweinidogion Lleyg yr Eglwys yn Lloegr), Jeremy Duff a'r Esgob Cherry amrywiaeth o weithdai ymarferol a myfyriol. Cynhaliwyd digwyddiad y gwanwyn ym mis Mawrth 2022, ac roedd yn cynnwys astudiaeth Feiblaidd ar Luc 10 dan arweiniad Elizabeth Corsar a dwy drafodaeth ar weinidogaeth leyg dan arweiniad yr Esgob Cherry.

## CYNADLEDDAU CYN-YMDDEOLIAD

Gan fod y galw am y gynhadledd cyn-ymddeoliad blynyddol yn uchel, fe wnaethom gynnal dwy gynhadledd yr hydref diwethaf.

Mae cynadleddau fel y rhain yn cynnig cymorth ymarferol a gwybodaeth am bensiynau'r Eglwys yng Nghymru; y Cynllun Tai Clerigol ar ôl Ymddeol; cymorth ynghylch cynllunio materion ariannol personol; a chyngor a myfyrdodau defnyddiol gan glerigwyr sydd wedi ymddeol yn ddiweddar ac eraill. Cynhaliom weithdai ar weddïo, cerddoriaeth ac ysgrifennu creadigol a oedd oll yn rhoi cyfleoedd i ymlacio a thrafod gweithgareddau newydd.

## HYFFORDDIANT AR Y CYD I DIMAU O WEINIDOGION

Yn ystod hydref 2021, lansiwyd y cyntaf o ddau brosiect peilot a gynlluniwyd i gefnogi, arfogi a galluogi timau gweinidogion/cenhadon i weithio'n fwy effeithiol ac ar y cyd i hybu cenhadaeth yn eu cyd-destunau gweinidogol eu hunain. Mae disgwyl i'r ail gynllun peilot ddechrau yn hydref 2022.

Mae'r ddau gynllun peilot yn cynnwys timau o hyd at chwe chlerig a lleygwyr o chwe ardal gweinidogaeth/cenhadu wahanol ledled Cymru, ac maent yn cael eu hwyluso gan Lead Academy, un o brif ddarparwyr hyfforddiant y DU ar ddeinameg tîm, arweinyddiaeth, a gweinidogaeth gydweithredol. Mae pob rhaglen wedi'i chynllunio i redeg am ddwy flynedd ac yn cynnwys cymysgedd o bedwar cwrs preswyl deuddydd o hyd (a elwir yn Gymunedau Dysgu) gyda hyfforddwyr a mentoriaid wedi'u neilltuo i'r timau unigol i gadw mewn cysylltiad rhwng pob sesiwn.

## CYRSIAU HYFFORDDI TALEITHIOL AR GYFER DATBLYGIAD PARHAUS I WEINIDOGION

Mewn ymgynghoriad â Chyfarwyddwyr Gweinidogaeth yr Esgobaeth, mae Athrofa Padarn Sant wedi llunio rhaglen eang o gyrsiau diwrnod llawn a hanner diwrnod yn cynnig cymorth, hyfforddiant a chefnogaeth i weinidogion ac eglwysi. Mae'r rhaglen yn cynnwys cymysgedd o ddigwyddiadau Zoom a digwyddiadau yn y cnawd, a chynhelir yr hyfforddiant yn y cnawd mewn amrywiaeth o leoliadau ledled Cymru.

Mae'r cyrsiau hyn yn canolbwyntio ar helpu i gymhwyso a galluogi arweinyddiaeth (e.e. arwain timau iach a chefnogi gwirfoddolwyr); sgiliau craidd (e.e. rheoli gwrthdaro, rheoli amser a rheoli newid yn effeithiol); a chyrsiau mwy ymarferol i weinidogion a'u timau yn yr Eglwys (e.e. gofalu mewn cyfnod o alaru, pregethu effeithiol, deall gweinidogaeth arloesol a chroesawu a lletygarwch fel cenhadaeth).

Mae dros 30 o gyrsiau'n cael eu cynnig i gyd gyda'r rhaglen yn rhedeg o fis Mehefin 2021 hyd at fis Mawrth 2022.



# Rhaglen Israddedigion

## BTH DIWINYDDIAETH AR GYFER DISGYBLAETH GWEINIDOGAETH A CHENHADAETH

Yn y flwyddyn academaidd hon, enillodd 41 gymwysterau. Y nifer ar y cwrs yn ystod y flwyddyn oedd 161 yn cynnwys 44 o fyfyrwyr Lefel 6, 67 o fyfyrwyr Lefel 5 a 50 o fyfyrwyr lefel 4. Mae cyfran uchel o'n myfyrwyr yn astudio i gyfoethogi eu bywyd Cristnogol a'u disgyblaeth eu hunain ac nid fel rhan o hyfforddiant ar gyfer gweinidogaeth drwyddedig. Ymfalchïwn ein bod yn chwarae rhan yn natblygiad diwinyddion lleyg sydd â doniau pwysig i'w rhannu ym mywyd yr eglwys, ac yn bwysicach fyth wrth drafod diwinyddiaeth o fewn eu cymunedau a'u gweithleoedd.

Mewn ymateb i'n hadolygiad ddiwedd y flwyddyn, roedd ymatebion y myfyrwyr am yr hyn a ddysgwyd yn amrywio – mae'r amrywiaeth o fodiwlau'n golygu bod gwahanol bobl yn cymryd rhan mewn gwahanol ffyrdd, ond mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, ymatebodd pobl fel hyn:

'Ychydig iawn oeddwn i'n ei wybod o'r blaen, felly dysgais lawer iawn: am Dduw, hanes y Beibl, astudiaethau a hanes diwinyddiaeth.'

'Y peth mwyaf defnyddiol oedd cael dealltwriaeth gliriach o hanes ac ystyron y gwahanol adrannau o'r litwrgi Ewcharist.'

'Cefais fy synnu gan y modiwl cenhadaeth Gristnogol a hefyd y modiwl Diwinyddiaeth Ymarferol, fod cysylltiad â fy mhryder ers amser maith am faterion amgylcheddol byd-eang.'



Wrth ateb pa fodiwl oedd yn eu diddori fwyaf, fel y llynedd, bu bron i rywun sôn am bob modiwl a mynegwyd amrywiaeth debyg wrth ymateb i'r cwestiwn pa fodiwl oedd wedi'u cynorthwyo fwyaf yn eu cenhadaeth neu weinidogaeth.


Yn gyffredinol, mae dysgwyr yn mwynhau eu grwpiau dysgu dan arweiniad. Dyma rai o'r sylwadau a gafwyd:

'Rwy'n ffodus i gael grŵp amrywiol gydag arweinydd rhagorol.'

'Mae ein harweinydd yn anhygoel ac rwy'n dysgu cymaint gan y lleill yn fy ngrŵp yn ogystal â gwneud ffrindiau da.'

Mae newid i ddefnyddio darparwr Moodle gwahanol wedi rhoi mwy o ryddid i ni addasu'r adnoddau ag y dymunwn, ac mae gwasanaethau'r llyfrgell wedi bod yn gweithio'n galed i wneud deunyddiau darllen mwy hygyrch, ac i wneud Moodle yn haws i'w defnyddio yn gyffredinol. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio ar wella ein prosesau marcio ymhellach, ac yn arbennig helpu myfyrwyr i ddeall y sylwadau drwy eu geirio'n fwy cadarnhaol.

Rydym hefyd wedi bod yn datblygu modiwlau newydd, un modiwl Lefel 6 sy'n galluogi dysgwyr i ddilyn eu diddordebau diwinyddol eu hunain gydag arweiniad gan diwtor, a modiwl lefel 6 arall o'r enw Cymhwyso Diwinyddiaeth, yr Eglwys a Hunaniaeth yng Nghymru ar ôl Datganoli, i gyd-fynd â modiwl lefel 5 rydym eisoes yn ei gynnig o'r enw Ystyried Cristnogaeth yng Nghyd-destun Cymru: y Gorffennol, y Presennol a'r Dyfodol. Fel hynny, rydym yn datblygu diwinyddion sy'n gallu myfyrio ar eu cyd-destun o safbwynt diwinyddol. Wrth i fwy o ddysgwyr gyrraedd Lefel 6 ac ennill eu graddau, rydym wedi bod yn eu hannog i wneud cyflwyniadau yn ein symposia ymchwil ac ystyried gwneud gwaith ôl-raddedig neu hyd yn oed ddod yn arweinydd eu hunain. Rydym hefyd wedi penodi sawl academydd ar ddechrau eu gyrfa yn gynorthwywyr addysgu ôl-raddedig i gynorthwyo gyda'r gwaith marcio a'r addysgu fel ein bod hefyd yn datblygu diwinyddion Cymraeg y dyfodol ymhlith y gymuned academaidd ehangach.



# Cyrsiau Ôl-raddedig a Addysgir

## MA DIWINYDDIAETH, GWEINIDOGAETH A CHENHADAETH

Daeth ein MTh (Diwinyddiaeth) ym Mhrifysgol Caerdydd i ben yn ystod blwyddyn academaidd 2021/22, gyda dim ond dau fyfyriwr ar ôl i gwblhau eu traethodau hir erbyn diwedd y flwyddyn honno. Cyflwynwyd y cwrs ochr yn ochr â Choleg Bedyddwyr De Cymru, ac mae'r cwrs yma wedi addysgu ac ysbrydoli llawer o fyfyrwyr dros y blynyddoedd. Gorffennom eleni gyda brwdfrydedd a gobaith y byddai ein cysylltiadau â Choleg y Bedyddwyr yn parhau mewn ffyrdd eraill yn y dyfodol.



Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'n hymdrechion y flwyddyn ddiwethaf wedi mynd tuag at lansio ein cwrs MA newydd cyffrous (Diwinyddiaeth, Gweinidogaeth a Chenhadaeth), wedi ei ddilysu gan Brifysgol Durham. Mae'r cwrs yn rhoi sylfaen i'n myfyrwyr mewn diwinyddiaeth ymarferol ac astudiaethau Beiblaidd, cyn gadael iddynt deilwra eu hastudiaethau i gyd-fynd â'u diddordebau neu gefndir hwy. Mae'n cynnig cwrs i fyfyrwyr sydd wedi ei wreiddio yn eu sefyllfa neu eu hardal personol hwy, neu yn niwylliant a gweinidogaeth Cymru. Mae'r rhaglen newydd, sy'n cael ei chynnal dros dri chwrs preswyl bob blwyddyn, wedi ei dylunio gyda bywyd prysur gweinidogion ordeiniedig a lleygwyr mewn golwg, a'i nod yw bod yn berthnasol i'r Eglwys heddiw ac i'r gymdeithas gyfoes.



Dechreuodd y criw cyntaf o 8 myfyriwr newydd (nifer a oedd yn fwy nag yr oeddem yn ei ddisgwyl) ym mis Medi 2021 ac, er gwaethaf heriau'r pandemig, bu llawer o gyffro a brwdfrydedd wrth i'r grŵp ffynnu yn ystod eu blwyddyn gyntaf ar y cwrs newydd arloesol yma. Roeddem hefyd wrth ein bodd, ar ôl ymgyrch barhaus i roi cyhoeddusrwydd i'r cwrs (gan gynnwys fideos o ansawdd uchel, erthyglau mewn cylchgronau i esgobion, a stondinau mewn cynadleddau i esgobion), fod chwe myfyriwr newydd wedi cofrestru i ymuno â'r cwrs, ac y byddwn yn croesawu'r ail garfan o chwe myfyriwr newydd ym mis Medi 2022. Yr hyn sy'n newyddion eithriadol o dda yw bod y rhan fwyaf o'r 14 myfyriwr hyn yn weinidogion yr Eglwys yng Nghymru sy'n defnyddio'r cwrs hwn i wella a chyfoethogi eu gweinidogaeth.

## MA AR GYFER ARBENIGWYR PLANT, POBL IFANC A THEULUOEDD

Lansiwyd y cwrs MA arbenigol hwn yn 2018 ac mae wedi datblygu'n gyflym i fod yn un o'r cymwysterau ôl-raddedig mwyaf cyffrous ar gyfer pobl sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd ledled y DU. Bob blwyddyn, mae'r siaradwyr yn cynnwys George Lings (cyn-bennaeth ymchwil Byddin yr Eglwys), Yvonne Morris (Cynghorydd Plant Esgobaeth Rhydychen), Rachel Turner (sylfaenydd Parenting for Faith), Gary Smith (Message Trust Wales), Chloe Richards (Alpha Cymru), Matt Summerfield (Zeo Church, cyn gyfarwyddwr Urban Saints) ac yn 2021 ymunodd Sally Nash â'r tîm fel uwch-gymrawd ymchwil. Daw llawer o'n myfyrwyr o'r Eglwys yng Nghymru neu enwadau Cymreig eraill, ond rydym hefyd yn denu myfyrwyr o Loegr, yr Alban a hyd yn oed un myfyriwr o Albania. Mae'r cymysgedd hwn o wahanol bobl o wahanol gyd-destunau, ond oll yn ymwneud â gweinidogaeth i bobl ifanc a phlant, yn gwneud hon yn rhaglen gyffrous a diddorol.


Mae'r cwrs hwn wedi sefydlu ei hun yn gyflym fel y darparwr mwyaf ar gyfer Addysgu Ôl-raddedig i weithwyr Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd ar draws y DU. Yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf, graddiodd 10 o'n myfyrwyr, gyda mwy na hanner ohonynt yn derbyn rhagoriaeth.

## MA ASTUDIAETHAU CAPLANIAETH

Gall myfyrwyr astudio am Dystysgrif Ôl-radd, Diploma Ôl-radd, neu MA mewn Astudiaethau Caplaniaeth. Mae ein rhaglen flaenllaw yn cefnogi caplaniaid yn eu swydd a'u gweinidogaeth. Cynlluniwyd y cwrs i ddiwallu anghenion y sawl sy'n gweithio mewn cyd-destunau proffesiynol cymhleth. Mae myfyrwyr sy'n dymuno astudio'r MA llawn yn cwblhau tri modiwl y flwyddyn am ddwy flynedd, ac yna deng mis ar gyfer ysgrifennu traethawd hir. Mae'r dull cyflwyno ar gyfer yr arbenigedd hwn yn canolbwyntio'r holl addysgu yn dri bloc dwys (dydd Llun i ddydd Mercher).



Ar ôl trosglwyddo ein dilysiad yn llwyddiannus i Brifysgol Durham y flwyddyn academaidd hon, a chyda mwy neu lai dîm newydd o diwtoriaid, rydym wedi bod yn adolygu ein rhaglen ochr yn ochr â'n carfan gyntaf o fyfyrwyr. Gall y rhai sy'n astudio ar gyfer y Dystysgrif Ôl-raddedig am flwyddyn bellach astudio ymarfer sy'n ôl-fyfyrio yn hytrach na dulliau ymchwil. Rydym wedi llwyddo i gael




achrediad fel rhaglen gofrestru gyda'r Bwrdd Caplaniaeth Gofal Iechyd.

Eleni roedd 28 o gaplaniaid yn hyfforddi ar gyfer ein MA Astudiaethau'r Gaplaniaeth yn Athrofa Padarn Sant, ac roedd 16 ohonynt yn gaplaniaid milwrol.

## YMCHWIL

Mae staff Athrofa Padarn Sant yn ceisio cyfrannu at ddatblygiad syniadaeth a chenhadaeth ddiwinyddol ac ymarfer gweinidogaeth yn yr Eglwys drwy eu hymchwil, eu gwaith ysgrifennu a'u siarad, a thrwy roi cyngor arbenigol (e.e. wrth ddefnyddio data ac ystadegau wrth lunio gwaith cenhadu). Agwedd bwysig ar hyn yw goruchwylio ymchwil doethurol (graddau PhD) gan feithrin y genhedlaeth nesaf o ddiwinyddion ac ysgogi ymchwil ddefnyddiol. Mae'r rhestr ganlynol o brosiectau doethuriaeth sy'n cael eu goruchwylio yn 2021-22 yn rhoi blas o'r gwaith hwn.

Ar hyn o bryd mae ein tiwtoriaid yn goruchwylio graddau PhD ym Mhrifysgol Manceinion, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phalas Lambeth.

Cynhaliodd Athrofa Padarn Sant hefyd ddau Symposiwm Ymchwil yn ystod y flwyddyn i gefnogi syniadaeth a chydweithio parhaus. Cyfrannodd tiwtoriaid, myfyrwyr a siaradwyr gwadd bapurau ar amrywiaeth o bynciau o safbwyntiau Beiblaidd, litwrgaidd, diwinyddol a hanesyddol ar bynciau'n amrywio o addysg grefyddol i hiwmor, i ddarllen testunau'n fanwl i fyfyrio'n ddiwinyddol ar boen, gobaith, a'r pandemig. Wrth symud ymlaen, rydym yn gobeithio datblygu'r agwedd hon o'n gwaith, fel bod symposia ymchwil yn dod yn rhan annatod o galendr Athrofa Padarn Sant.



| | |
|---|---|
| Dehongli'r Beibl ar gyfer Cyd-destun Cymreig | Galwedigaethau ifanc – y rhwystrau i recriwtio offeiriaid iau |
| Intergen – Adeiladu cymunedau Cristnogol cryf drwy gynnwys pob oedran mewn addoliad a gweinidogaeth. | Caplaniaid yn y Dwyrain Pell yn ystod yr Ail Ryfel Byd – Astudiaeth mewn Gwydnwch Ysbrydol. |
| Ystyried gweinidogaeth eglwysig hirdymor gyda phobl ifanc sydd wedi cael Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod | Marwolaeth a Phrofedigaeth – A yw Addysg Gristnogol yn helpu ynteu rwystro plant yn y broses o ddelio â phrofedigaeth? |
| Duw drosom Ni: Ailhawlio Cyfraniad LaCugna i'r Eglwys | Caneuon Caneuon – Exegesis Beiblaidd |
| Gwasanaethu dau feistr: gwerthusiad beirniadol o'r arddulliau arwain a fabwysiadwyd gan gaplaniaid y Fyddin Brydeinig a'u perthynas â modelau arweinyddiaeth eglwysig a milwrol. | Trawsnewid Gweinidogaeth yn yr Eglwys yng Nghymru: Asesiad beirniadol o Weithrediad Ardaloedd Gweinidogaeth |

# Ein Rhaglen Caplaniaeth Ehangach



### DECHRAU CAPLANIAETH

Mae Dechrau Caplaniaeth yn gwrs sefydlu pum diwrnod i gaplaniaid sydd yn gweithio ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol. Fe'i cynlluniwyd yn seiliedig ar brofiad ac anghenion caplaniaid newydd i'r swydd. Mae Dechrau Caplaniaeth yn atgyfnerthu rhaglenni sefydlu mewnol a rheolaeth leol.

Mae'r cwrs yn cefnogi caplaniaid ac yn eu hannog i fod yn ymarferwyr diogel ac effeithiol, sy'n medru gwneud cyfraniad arbennig. Mae Dechrau Caplaniaeth wedi ei ddatblygu ar Fframwaith Cymwyseddau a Galluoedd Bwrdd Caplaniaeth Gofal Iechyd y DU.

### RHAGLEN DDATBLYGU AR GYFER CAPLANIAID Y CAMLESI (PEILOT)

Mewn partneriaeth â Chaplaniaid y Camlesi, rydym yn treialu hyfforddiant mwy hygyrch i elusennau llai, a chaplaniaid rhan-amser a gwirfoddol. Mae'r rhaglen yn cynnwys cyfanswm o ddeuddeg sesiwn. Mae chwe phrynhawn cenedlaethol yn cael eu darparu gan Athrofa Padarn Sant drwy Zoom a chwe sesiwn 'leol' arall dan arweiniad Caplaniaid y Camlesi. Os bydd yn llwyddiannus, bydd y rhaglen yn rhedeg ar yr un pryd ag ystod o ddarparwyr caplaniaeth llai.

### EDRYCH TUA'R DYFODOL

Rydym yn ymdrechu i sicrhau bod ein gwaith ymchwil ôl-raddedig yn canolbwyntio ar sicrhau bod Athrofa Padarn Sant yn cadw ac yn gwella ei henw da rhyngwladol fel y lle amlycaf ar gyfer hyfforddi caplaniaid. Rydym yn paratoi MA Caplaniaeth (carchardai) arbenigol i gael ceisiadau yn 2023-24 a Chaplaniaeth Tystysgrif Ôl-radd gydag achrediad UKBHC. Wrth wella mynediad at gaplaniaeth arbenigol, rydym yn edrych i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer ymchwil ôl-radd i gaplaniaeth ymhellach.



# Diwinyddiaeth a'r Gymraeg

### DYSGU CYMRAEG

Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd llawn amser yn Athrofa Padarn Sant nad ydynt eisoes yn rhugl yn yr iaith i ymdrechu i ddysgu'r iaith fel rhan o'u hyfforddiant, ac anogir gweithwyr rhan-amser i wneud hynny hefyd. Y rhesymeg dros y ddarpariaeth hon yw, yn gyntaf, mewn ardal ddaearyddol fawr yng Nghymru, mae mwyafrif, neu leiafrif â niferoedd sylweddol, o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg ac mae'n amlwg bod y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn angenrheidiol yn yr ardaloedd hynny i sicrhau gweinidogaeth a chenhadaeth effeithiol. Yn ail, mae'r Eglwys yng Nghymru yn Eglwys ddwyieithog falch, a hyd yn oed mewn ardaloedd lle mae'r canrannau o siaradwyr Cymraeg yn is, mae'n dal i geisio cynnig cyfleoedd addoli a bugeiliol drwy'r Gymraeg. Mae'n wir hefyd fod gan y Gymraeg broffil uwch yn rhai o rannau mwy 'Seisnig' Cymru nag y mae wedi'i chael ers can mlynedd a mwy. Yn Nhreganna, er enghraifft, ardal o Gaerdydd sy'n ffinio â Llandaf, mae dros 20% o'r boblogaeth bellach yn siaradwyr Cymraeg, a hanner can mlynedd yn ôl prin y byddai presenoldeb siaradwyr Cymraeg wedi bod yn amlwg.

Yn 2021-2022, parhaodd addysgu'r Gymraeg drwy Athrofa Padarn Sant i ddefnyddio'r cwrs aml-lefel ar-lein, SaySomethinginWelsh, gyda phob ymgeisydd amser llawn nad yw'n rhugl yn cael ei gofrestru ar lefel sy'n briodol iddynt. Cafodd rhai ymgeiswyr a ddywedodd eu bod yn ffafrio cwrs ar-lein arall, sef Duolingo, eu cofrestru ar hwnnw yn lle, a chafodd ymgeiswyr a oedd yn gallu cael mynediad i ddosbarthiadau ar-lein neu ar y safle eu cefnogi hefyd i ddilyn yr opsiwn hwnnw.

Parhaodd sesiynau ymarfer Tê Bach hefyd, ac ar wahân i gyfnod clo byr yn gynnar yn 2022, roedd modd eu cynnal ar brynhawn Iau ar y safle yn y Capel. Y patrwm a sefydlwyd oedd rhoi cyflwyniad rhagarweiniol byr gan y Tiwtor mewn Diwinyddiaeth Gymraeg, y Parchedig Ddr Siôn Aled Owen, ar agwedd o'r iaith yn ymwneud â'r Eglwys a'r weinidogaeth, ac yna rhannu'n grwpiau ar dair lefel, sef Dechreuwyr, Canolradd ac




Uwch, gyda'r ddwy lefel uwch yn cael eu hwyluso ar sail wirfoddol gan ymgeisydd sy'n ddysgwr ar lefel uchel ac ymgeisydd sy'n rhugl yn y Gymraeg.

Yn ogystal, cafodd nifer o'r sesiynau ar ddydd Iau eu rhoi mewn Cymraeg litwrgaidd gan y Parchedig Dyfrig Lloyd o Eglwys Dewi Sant, Caerdydd.

Anogwyd ymgeiswyr yn frwd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gynllunio ac arwain sesiynau addoli, yn Athrofa Padarn Sant ac yn eu heglwysi ar leoliad. Yn amlwg, nid oedd hon yn dasg hawdd i rai o'r dysgwyr llai profiadol, ond roedd yn galonogol iawn gweld yr ymdrechion a wnaed a'r arbrofi gyda dulliau creadigol o ddefnyddio'r iaith. Yr oedd yn amlwg i'r iaith Gymraeg ddod yn rhan gynyddol o fywyd addoli'r Athrofa yn ystod y flwyddyn.

Fel enghraifft o'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweinidogaeth a chenhadaeth y tu hwnt i Athrofa Padarn Sant ei hun, sefydlodd un ymgeisydd gyfarfod Eglwys Caffi ar brynhawn Sul yn Esgobaeth Llanelwy, gan ddarparu'n arbennig ar gyfer dysgwyr Cymraeg, gyda siaradwyr rhugl yn bresennol i roi eu cefnogaeth. Y gobaith yw y gellir annog mentrau tebyg eraill ar gyfer 2022-23.

Mae nifer o aelodau staff hefyd yn dysgu Cymraeg ar wahanol lefelau ac mae Athrofa Padarn Sant yn eu cefnogi yn hyn o beth. Anogir aelodau staff ac ymgeiswyr i fanteisio ar y cyfleoedd i ymarfer eu Cymraeg a ddarperir gan y Mentrau Iaith ym mhob rhan o Gymru, a darperir rhagor o wybodaeth am y cyfleoedd hynny yn ystod 2022-23.

Roedd yn arbennig o galonogol nodi yn ystod y flwyddyn sut y daeth agweddau tuag at ddysgu Cymraeg a'r defnydd o'r iaith wrth addoli a chynnal gweithgareddau eraill yr Athrofa yn gynyddol fwy positif. Roedd rhai, y mae eu gweinidogaeth yn debygol o fod mewn ardaloedd lle mae'r canrannau o siaradwyr Cymraeg yn isel iawn, yn amheus ar y dechrau beth oedd gwerth dysgu'r iaith, ond daethant i weld bod y Gymraeg yn perthyn i Gymru gyfan ac y gall sgiliau Cymraeg fod o werth lle bynnag yr ydych yng Nghymru – a thu hwnt, o ystyried cyrhaeddiad y we i gymunedau ac unigolion Cymraeg ar draws y byd erbyn hyn. Yn hyn o beth, mae'n bwysig nodi nad yw Athrofa Padarn Sant yn gosod targedau ar gyfer cyflawniadau dysgwyr o ran dysgu'r Gymraeg – gall pob ymgeisydd ddysgu i'r lefel sy'n briodol i'r unigolyn hwnnw a'i weinidogaeth bresennol ac yn y dyfodol.

Mae'r cynlluniau ar gyfer 2022-23 yn cynnwys darparu dosbarthiadau Cymraeg yn y Gweithle ar y safle ar o leiaf dair lefel, mewn partneriaeth â'r Ganolfan Genedlaethol Cymraeg i Oedolion, a chwrs preswyl wythnos ar bregethu yn Gymraeg, dan arweiniad Siôn Aled Owen, yn y Ganolfan Iaith Genedlaethol yn Nant Gwrtheyrn, Gwynedd. Bydd cefnogaeth ar gyfer dysgu ar-lein (ochr yn ochr â'r dosbarthiadau ar y safle) hefyd yn parhau.

## DYSGU CYMRAEG DIWINYDDIAETH GYMREIG

Yn ystod blwyddyn academaidd 2021-22, mae Siôn Aled Owen wedi bod yn paratoi i gyflwyno modiwl newydd ar Gymhwyso Diwinyddiaeth, yr Eglwys a Hunaniaeth yng Nghymru ar ôl Datganoli yn ystod y flwyddyn academaidd ganlynol. Fodd bynnag, mae eisoes wedi bod yn rhoi mewnbwn yn y maes hwn drwy gyflwyniadau ar benwythnosau preswyl, mewn symposiwm ymchwil gan Athrofa Padarn Sant ac yn y cyflwyniadau rhagarweiniol i sesiynau ymarfer Te Bach. Bu hefyd yn addysgu'r modiwl sefydledig ar Archwilio Cristnogaeth yng Nghymru ar y cyd â Paula Yates, gan gyflwyno ei arbenigedd a'i brofiad ei hun i'r modiwl yr oedd Paula wedi'i ddatblygu ei hun. Rhoddodd hefyd gyflwyniad ar ddwyieithrwydd yn yr Eglwys yng Nghymru yng Nghynhadledd Addysgwyr Diwinyddol y DU a gynhaliwyd eleni ym Mhrifysgol Caerlŷr.

Mae Siôn hefyd yn aelod o Grŵp Awduron yr Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon sy'n creu'r adnoddau ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undod Cristnogol. Yn ogystal â chyfrannu at y gwaith o greu'r adnoddau, a ysbrydolwyd gan eglwysi mewn gwahanol rannau o'r byd bob blwyddyn, Siôn sy'n gyfrifol am gyfieithu'r deunydd i'r Gymraeg.


Mae Siôn hefyd yn un o feirdd preswyl Pererindod Llenyddol Llwybr Cadfan Sant, gan ddilyn ôl-troed Cadfan, sant Celtaidd o'r chweched ganrif, yn wreiddiol o Lydaw, o Dywyn, Meirionnydd, i Ynys Enlli. Lansiwyd y prosiect yn Eglwys Sant Cadfan yn Nhywyn ym mis Mawrth, ym mhresenoldeb yr Archesgob Andrew a'r Esgob Mary, Esgob Cynorthwyol Bangor, a bydd yn cyrraedd Enlli ym mis Awst 2023. Cyhoeddir y farddoniaeth a grëir gan Siôn a'i gyd-fardd preswyl, Sian Northey, ynghyd â gwaith gan feirdd eraill a fu'n ymwneud â'r bererindod a chyfranogwyr mewn gweithdai ysgrifennu ar hyd y daith, mewn cyfrol pan fydd y prosiect wedi'i gwblhau.

Mae Athrofa Padarn Sant yn awyddus i bwysleisio nad rhyw agwedd fach o'r cwricwlwm yw 'Diwinyddiaeth Gymraeg', ond llinyn sy'n rhedeg drwy'r addysgu, y trefniadau addoli a bywyd y gymuned, yn yr un modd i raddau helaeth ag y dethlir yr iaith Gymraeg hefyd yn yr holl feysydd hynny.



# Adnoddau Gweinidogaeth

Ar ddiwedd 2021 fe wnaethom gyhoeddi'r cyntaf o gyfres lyfrau "Gweinidogaeth". Y cyntaf oedd y llyfryn i helpu Darllenwyr drwy egluro'r weinidogaeth hollbwysig a chreiddiol hon, ac i gynorthwyo gyda strategaeth llawer o esgobaethau i recriwtio mwy o Ddarllenwyr. Roedd yn gyffrous gweithio gyda Wardeiniaid Darllenwyr o bob rhan o Gymru i greu'r llyfr hwn. Drwy gydol y flwyddyn academaidd 2021-22 rydym wedi bod yn datblygu dau lyfryn newydd; y cyntaf ar Arwain Addoli a'r ail ar Ymweliadau Bugeiliol. Mae'r rhain wrthi'n cael eu cysodi ar hyn o bryd, a byddant yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg yn gynnar yn 2023.




# Adnoddau Dysgu

**Yn ystod y flwyddyn, roeddem yn falch o fod yn dychwelyd yn raddol i gyfuniad o sesiynau wyneb yn wyneb a sesiynau ar-lein. Mae ein datblygiadau cyflym mewn adnoddau a thechnoleg ar-lein dros y 18 mis blaenorol yn ein rhoi mewn sefyllfa gryfach o ran darparu adnoddau ar gyfer rhaglenni cyfredol fel y rhaglenni BTh a Gweinidogion Trwyddedig Newydd, ond hefyd wrth ddarparu'r adnoddau ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer yr MA Diwinyddiaeth, y Weinidogaeth a Chenhadaeth.**



Eleni gwnaethom newidiadau sylweddol y tu ôl i'r llenni i'n platfform dysgu rhithwir, Moodle Padarn Sant, gan ein galluogi i fod yn ymwybodol o ddiweddariadau meddalwedd a rhoi sylfaen gadarn i ni wneud datblygiadau pellach. Fe wnaeth hyn ein galluogi ar unwaith i integreiddio'r cynnwys ar gyfer rhaglenni'r MA Diwinyddiaeth, y Weinidogaeth a Chenhadaeth, nad oeddent wedi'u cynnwys ar Moodle Padarn Sant o'r blaen.

Mae ein hychwanegiadau technolegol yn cynnwys 2 gamera 'Tylluan' sydd wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol gyda grwpiau dysgu bach a chyfarfodydd gyda chymysgedd o fynychwyr rhithwir ac yn y cnawd.

Rydym wedi parhau i ddarparu adnoddau digidol mewn fformatau hygyrch lle bynnag y bo'n bosibl, megis cydnawsedd â darllenwyr sgrin a chymhorthion darllen eraill. Rydym hefyd yn ychwanegu meddalwedd at gyfrifiaduron y llyfrgell i gyd-fynd â'r feddalwedd a ddarperir i fyfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol fel y gallant ddefnyddio'r un feddalwedd os byddant yn ymweld â'r llyfrgell. Rydym yn parhau i ddarparu cefnogaeth i fyfyrwyr unigol ag anghenion dysgu ychwanegol yn unol â'u gofynion.

Rydym yn parhau i allu defnyddio adnoddau ar-lein y Common Awards Hub, sydd bellach yn dod i gyfanswm o bron i 14,000 o eLyfrau ar gyfer myfyrwyr MA a 4,000 o eLyfrau ar gyfer myfyrwyr BTh a Gweinidogion Trwyddedig Newydd. I'n casgliad ein hunain o eLyfrau, rydym wedi gwneud 152 o ychwanegiadau newydd at ddibenion penodol, gan gynnwys cyfres lawn o sylwebaeth Feiblaidd. Yn flaenorol, roeddem wedi dibynnu ar sganiau digidol o benodau o werslyfrau ar gyfer darlleniadau cwrs hanfodol, ond nawr rydym yn darparu'r e-Lyfr llawn ar gyfer y rhan fwyaf o'r darlleniadau sy'n hanfodol i gyrsiau, gan ganiatáu i fyfyrwyr ddarllen yn ehangach o amgylch pwnc yn hawdd.

Mae dal modd benthyg llyfrau printiedig, a hynny drwy ymweld â'r llyfrgell neu drwy'r post ac er bod llawer o ddefnyddwyr o bell, y llynedd roedd gennym 136 o fenthycwyr o'r llyfrgell.

Roeddem yn falch iawn o weld nifer y llyfrau a gyhoeddwyd, sef dim ond 226 yn 2020-21, yn dychwelyd i'r lefelau cyn-bandemig eleni gyda 1,472 o lyfrau wedi'u cyhoeddi. Rydyn ni hefyd wedi dychwelyd i lefelau cyn-bandemig gan ychwanegu 549 o lyfrau printiedig at y casgliad.



# Cymorth Dysgu

**Mewn addysg mae'r term 'anabledd' yn cwmpasu ystod o anghenion ychwanegol a all effeithio ar ddysgu rhywun – gallai'r rhain fod yn anableddau corfforol megis colli clyw neu broblemau symudedd, trafferthion iechyd meddwl sy'n cynnwys unrhyw un sydd â chyflwr iechyd meddwl hirdymor a gwahaniaethau dysgu penodol megis dyslecsia.**

Mae gan Athrofa Padarn Sant gyfrifoldeb cyfreithiol i sicrhau 'nad yw anabledd yn rhwystr i unigolyn rhag cymryd rhan lawn mewn dysgu ac addysgu, nac wrth ddefnyddio cyfleusterau a gwasanaethau ar gyfer dysgwyr presennol a darpar ddysgwyr'. Mae hefyd yn rhan o ethos Athrofa Padarn Sant i wneud trefniadau dysgu'n hygyrch. Bob blwyddyn mae rhwng 18-20% o ddysgwyr ar raglenni achrededig wedi datgan rhyw fath o angen ychwanegol.

Mae Athrofa Padarn Sant yn gweithio'n galed i greu amgylchedd i ddysgwyr deimlo'n gyfforddus i ddatgan anghenion ychwanegol. Anogir dysgwyr newydd i ddatgan unrhyw anghenion sydd ganddynt cyn gynted â phosibl. Weithiau bydd dysgwyr Athrofa Padarn Sant yn dechrau amau bod ganddynt wahaniaeth dysgu fel dyslecsia, neu gall tiwtor sylweddoli ar wahaniaeth dysgu posibl. Bydd y staff cymorth dysgu yn gweithio gyda'r dysgwyr i asesu a fyddent yn elwa o asesiad ffurfiol ac yn eu cefnogi i gael yr asesiad hwnnw. Eleni, rydym wedi cefnogi pobl ag ystod o anghenion ychwanegol. Dyslecsia fu'r angen mwyaf cyffredin, a bu nifer o fyfyrwyr ag awtistiaeth ac anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd.

Gall dysgwyr ag anghenion ychwanegol ar ein rhaglenni achrededig fod yn gymwys i gael cymorth sylweddol drwy'r Lwfans Myfyrwyr Anabl, ac mae'r staff cymorth dysgu yn cynorthwyo dysgwyr wrth iddynt wneud cais am y grant hwn. Mae'r Lwfans Myfyrwyr Anabl yn darparu cymorth sylweddol i'r sawl sydd ag anghenion ychwanegol. Gan ddibynnu ar fath a difrifoldeb yr angen, gall cymorth nodweddiadol gynnwys meddalwedd arbenigol, offer arbenigol a/neu gymorth un i un megis help gyda phrawfddarllen, neu fentora. Fel arfer, gallai dysgwr gael yr hyn sy'n cyfateb i £9,000 o gymorth y flwyddyn, er y gall dysgwyr gael hyd at £31,831 y flwyddyn. Bydd cynllun cymorth dysgu unigol yn cael ei roi ar waith ar gyfer unrhyw ddysgwr sydd wedi mynd drwy broses cymorth dysgu Athrofa Padarn Sant sy'n nodi'r addasiadau rhesymol y mae angen eu gwneud er mwyn eu helpu i gyflawni'r canlyniadau dysgu ar gyfer eu rhaglen.

Gan fod mathau o anghenion ychwanegol yn niferus ac amrywiol, mae Athrofa Padarn Sant yn defnyddio arbenigedd allanol ar gyfer cyngor a chymorth, ac mae'r Athrofa wedi datblygu partneriaeth dda gyda chwmni cymorth anghenion dysgu yng Nghymru, Beacon Support Ltd.

# Rhwydweithiau Cenedlaethol



### ADNODDAU CYMRAEG

Roeddem yn drist o ffarwelio â Rachel Settatree, ein Hyrwyddwr Cenhadaeth Cymreig rhan-amser, ym mis Ionawr. Mae'r gwaith y dechreuodd hi, fodd bynnag, wedi parhau. Mae hynny'n cynnwys creu, mewn partneriaeth â Chyngor Ysgolion Sul Cymru, lyfr dwyieithog o fyfyrdodau, sydd i'w gyhoeddi ddechrau Tachwedd 2022.

Parhaodd Angharad Gaylard â'r gwaith o ddiweddaru gwybodaeth am adnoddau Cymraeg a dwyieithog sydd ar gael ar ein gwefan, a pharhaodd i greu cylchlythyr yn rhoi cyhoeddusrwydd i ddatblygiadau o ran adnoddau a gweithgareddau Cymraeg. Cynrychiolir Athrofa Padarn Sant hefyd ar Bwyllgor Iaith Gymraeg y Dalaith, sy'n cael ei gadeirio gan Archesgob Cymru.

Mae Gofal ein Gwinllan, sef y gyfres o gyflwyniadau a thrafodaethau ar-lein ar gyfraniad yr Eglwys yng Nghymru i fywiogrwydd yr iaith a'r diwylliant Cymreig ar hyd y canrifoedd, hefyd wedi parhau. Mae'r holl gyflwyniadau, gan gynnwys cyfieithiad ar y pryd i'r Saesneg, ar gael ar wefan yr Eglwys yng Nghymru a bwriedir cyhoeddi testun y cyflwyniadau maes o law mewn cyfrol a olygir gan yr Athro Densil Morgan a Dr Cynfael Lake.

### RHWYDWAITH GWEITHWYR PLANT, POBL IFANC A THEULUOEDD

Mae Athrofa Padarn Sant yn chwarae rhan hollbwysig yn natblygiad plant, pobl ifanc a'r weinidogaeth ar draws y Dalaith. Mae'n cyflawni'r rôl hon yn y ffyrdd a ganlyn:

- Gweithio gyda phobl allweddol ar draws y dalaith a rhwydweithio gyda nhw, gan gynnwys Swyddogion Plant/Ieuenctid/Teulu Esgobaethol, Cyfarwyddwyr Addysg Taleithiol ac Esgobaethol ac wrth gwrs Esgob Llandaf sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y maes hwn o'r weinidogaeth. Daw'r gweithwyr plant/bobl ifanc/teulu amrywiol ynghyd fel rhwydwaith Cymru gyfan, ac mae Athrofa Padarn Sant yn gweithredu fel sianel rhyngddyn nhw a'r Esgob
- Gweithio gyda'r Rhwydwaith Taleithiol i gynnal digwyddiadau hyfforddi i helpu i arfogi a grymuso'r sawl sy'n gweithio yn yr ardal ar draws y dalaith



- Darparu adnoddau i'r Esgobaethau drwy eu cyfeirio at ddigwyddiadau o safon uchel y gellir eu cynnal ar draws y dalaith. Mae enghreifftiau diweddar wedi cynnwys Carolau yn yr Eglwysi Cadeiriol ac Y Parti Mawr.

Yn 2023 byddwn yn dechrau ehangu'r rôl honno ymhellach drwy weithio gyda swyddogion plant, pobl ifanc a theuluoedd yr Esgobaethau i gynnal cyfres o ddiwrnodau hyfforddi o ansawdd uchel.

## RHWYDWAITH ARLOESI

Mae Cymuned Arloesol yr Eglwys yng Nghymru yn parhau i gynyddu mewn nifer. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae bellach 251 o aelodau yn y Grŵp Facebook Arloeswyr yr Eglwys yng Nghymru. Mae'r twf hwn, ers ei lansio ychydig dros flwyddyn yn ôl, yn dod â'n Cymuned Arloesol i hanner maint Rhwydwaith Arloeswyr Anglicanaidd yr Eglwys yn Lloegr. Er nad ein Grŵp Facebook yw'r unig ddangosydd o faint y Gymuned Arloesol Gymreig, mae'n fewnwelediad calonogol.

Mae hanes hynafol Arloesi yng Nghymru yn parhau i fod yn ffynhonnell ysbrydoliaeth hyd heddiw, ac yn adnodd defnyddiol yn ein hawydd parhaus i ofyn i'r Ysbryd Glân am fewnwelediad i natur Arloesi Cymreig.

Gallem ddweud bod Arloeswyr Cymreig yr un mor hynafol â Christionogaeth yng Nghymru. Byddai Cristnogion cyntaf ein gwlad wedi bod yn Arloeswyr yn y ffaith iddyn ddod i Gymru pan nad oedd Cristnogaeth wedi'i sefydlu eto. Mae oes y Seintiau yn gyfnod pwerus a ffurfiannol yn ein treftadaeth arloesol, a gallwn ni oll edrych ar y cyfnod hwnnw. Nid peth newydd yw Arloesi yng Nghymru, ond rhan o union natur Cristnogaeth yng Nghymru: mae'n gyfoethog ac yn eang ac yn gallu croesawu holl bobl Duw ochr yn ochr â'r rhai sydd â charisma penodol arloeswr.

Rydym yn gyson yn chwilio am ffyrdd o ddatblygu a galluogi ein Cymuned Arloesol ledled Cymru. O fewn Athrofa Padarn Sant, mae'r rhaglen hyfforddiant gweinidogol bellach yn cynnwys modiwlau ffurfiannol mewn gweinidogaeth arloesol ym mhob cwrs preswyl. Mae'r ysgol haf flynyddol bellach yn cynnig cwrs Plannu Eglwysi. Ledled Cymru, rydym wedi lansio Fforymau Arloesi: digwyddiadau lle rydym yn cael mewnbwn gan brif siaradwr ac yna cyfleoedd ar gyfer gofyn cwestiynau, sgwrsio a gweddïo. Mae'r rhain yn digwydd bob yn ail fis, ar-lein i alluogi'r presenoldeb mwyaf posibl, a'u nod yw ennyn arloesi yng Nghymru. Mae'r Grŵp Llywio Arloesi yn cyfarfod yn rheolaidd.


Mae Cynhadledd Efengylu Arloesol wrthi'n cael ei hystyried, efallai ar gyfer 2023, yn ogystal â Sioe Deithiol Arloesi. Mae'r Parchedig Chris Thomson, fel Cynullydd y Gymuned Arloesi, ac fel rhan allweddol o'i rôl, eisoes yn teithio Cymru i gyfarfod, annog a galluogi'r Gymuned Arloesi gynyddol, gan ddwyn pobl ynghyd i rwydweithio: mae'n postio ei gyfarfyddiadau a thystiolaethau pobl ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae'r rhain yn ysbrydoledig ac yn hollbwysig gan feithrin ymdeimlad o gymuned i arloeswyr ledled Cymru. Mae'r rhwydwaith yn gobeithio cyfrannu'n fwy helaeth fyth at sgyrsiau am ddatblygiad y weinidogaeth. Bydd trafodaethau diwinyddol yn archwilio materion sy'n berthnasol i weinidogaeth arloesol, gan ddechrau yn gynnar yn 2023. Edrychwn ymlaen at alw ar Gymuned Arloesi'r Eglwys yng Nghymru i ymuno am ddiwrnod o weddi ac ymprydio yn ystod y Pasg 2023. Rydym hefyd yn cysylltu ag enwadau eraill i ddatblygu perthnasoedd a rhannu gwersi a ddysgir am arloesi. Mae addysgu ar arloesi wedi bod yn rhan o'r rhaglen Datblygiad Gweinidogol Parhaus eleni.





# Prosiectau Arbennig

## CWMNI THEATR RIDING LIGHTS




Yn hydref 2021, cynhaliwyd pleidlais gan y Corff Llywodraethol i ddatgan 2022 yn "Flwyddyn Llythrennedd Beiblaidd". Mae gan Athrofa Padarn Sant, gan gydweithio gyda'r Pwyllgor Cenhadu ac Efengylu, beth profiad o gydnabod bod cyfathrebu bob amser yn ymwneud â llyfrau! Felly penderfynwyd comisiynu Cyflwyniad gan Gwmni Theatr a fyddai'n edrych ar y Beibl a'i effaith drwy lygaid perfformwyr amrywiol. Rydyn ni wedi trefnu bod Riding Lights am wneud hyn a byddant yn dod â'u cyfuniad arferol o hiwmor, caneuon ac actio.

Y syniad yw cynnal tri pherfformiad ym mhob esgobaeth gydag un ohonynt yn eglwys gadeiriol yr esgobaeth. Bydd y perfformiadau hyn yn cael eu cynnal yn hydref 2022 ac mae ymarferion wedi hen ddechrau ar gyfer beth sy'n argoeli i fod yn gynhyrchiad theatr rhagorol.

## RHAGLENNI PRENTISIAETH

Yn ystod haf 2021 cyfarfu Athrofa Padarn Sant â rhanddeiliaid allweddol i drafod rhaglen i'w gwneud yn haws i bobl iau ystyried y weinidogaeth o fewn yr Eglwys yng Nghymru, a chysylltwyd â Llywodraeth Cymru i ymchwilio i sefydlu Fframwaith Prentisiaeth Lefel 4 ar gyfer Gweinidogaeth yn yr Eglwys. Byddai'r prentisiaethau yn ein helpu i gyflawni nifer o bethau:

1. Darparu cefnogaeth ychwanegol i'n heglwysi mewn ystod eang o swyddogaethau yn y weinidogaeth, o arwain grwpiau i bobl ifanc, allgymorth mewn ysgolion lleol, cyfrannu at wasanaethau a rhoi'r cadeiriau allan a dosbarthu'r llyfrau emynau.
2. Darparu llwybr i'r weinidogaeth ordeiniedig. Byddwn yn sicrhau bod Swyddogion Datblygu Gyrfa mewn cysylltiad â Phrentisiaid yn ystod eu hyfforddiant. Ac wrth gwrs fe fyddan nhw'n mynd i'r weinidogaeth ar Lefel 5 BTh ac yna'n gallu gwneud Lefel 5, Lefel 6 ac o bosib yr MA yn eu tair blynedd yn Athrofa Padarn Sant.
3. Os ydynt yn ystyried cael eu hordeinio yn ystod eu Prentisiaeth ond yn teimlo nad yw ar eu cyfer hwy, mae gennym rai lleygwyr medrus iawn o hyd.

Ym mis Rhagfyr 2021 fe wnaethom alw cyfarfod o'r enwadau Cymreig eraill – roedd 25 o enwadau yn bresennol. Ar ôl amlinellu casgliadau cyfarfod yr haf, roedd yn amlwg bod pob enwad yn wynebu anawsterau tebyg, ac ar ôl amlinellu potensial Fframwaith Prentisiaethau Gweinidogaeth yn yr Eglwys, roedd cytundeb cyffredinol y byddai hon yn ffordd dda ymlaen. Yn ogystal â'r cyfarfod rydym hefyd wedi cwrdd â sawl aelod o Lywodraeth Cymru sydd oll wedi mynegi eu cefnogaeth. Dros hydref 2021 a thrwy gydol 2022 rydym wedi bod yn gweithio ar y cynllun hwn.

Roedd datblygu Fframwaith Prentisiaethau yn golygu bod angen creu rhaglen addysgol



newydd gyda Phrifysgol Cymru. Bydd y rhaglen newydd hon yn darparu'r cyd-destun hyfforddi ar gyfer prentisiaethau. Os caiff y Fframwaith Prentisiaethau ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, yna:

- Bydd Athrofa Padarn Sant yn hyrwyddo'r Fframwaith Prentisiaethau ym mhob un o'n heglwysi. Gan ddefnyddio'r rhwydweithiau amrywiol rydym wedi'u datblygu dros y blynyddoedd.
- Byddwn yn cynnig cefnogaeth a chymorth i eglwysi sydd eisiau cyflogi prentis ac yn eu helpu i fanteisio ar gyllid gan Lywodraeth Cymru i wneud hyn. Bydd yr eglwysi hynny sy'n derbyn Prentis o dan y system hon yn derbyn hyd at £4k gan Lywodraeth Cymru.
- Bydd prentisiaid yn cael eu cyflogi gan yr eglwys ac yn ymgymryd â'r gweithgareddau a nodir gan yr eglwys. Gallwn roi cyngor ar hyn. Ond 4 diwrnod o weithio ynghyd ag 1 diwrnod o astudio fydd y ffordd ymlaen a argymhellir. Gydag amser ychwanegol o'r gwaith ar gyfer cyfnodau preswyl y bydd y prentisiaid yn eu mynychu.
- Bydd Athrofa Padarn Sant yn darparu cymhwyster Lefel 4 fel rhan o'r brentisiaeth drwy gyfres o gyrsiau preswyl a hyfforddiant Zoom/Teams.
- Cyn i'r Brentisiaeth ddechrau a thrwy gydol yr amser, bydd ein Swyddogion Datblygu Gyrfaoedd yn rhoi cyngor ar alwedigaethau, yn yr un modd ag y byddai Prentisiaid eraill yn cael mewnbwn gan athrawon gyrfaoedd,
- Y gobaith yw y bydd rhai o'n Prentisiaid yn dechrau hyfforddiant ordeinio ar ddiwedd yr hyfforddiant.

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i ni am ganlyniad ein gwaith yn gynnar yn 2023.

## EHANGU CYFRANOGIAD

Mae'r ymdrechion i 'ehangu lefelau cyfranogiad' yn arwyddocaol i Athrofa Padarn Sant, ac yn dod yn fwyfwy canolog i'n gweithgareddau. Yn hyn o beth fe'n cynorthwyir gan ofynion ac anogaeth gan ein partneriaid allanol amrywiol – Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Durham. Mae'r cyrff allanol hyn yn ychwanegu cadernid i'r hyn y byddai rhywun yn gobeithio y byddai'r Eglwys yn ei wneud eisoes.

Mae 'ehangu lefelau cyfranogiad' yn cwmpasu ystod o agweddau. Wrth wraidd y gwaith mae'r gydnabyddiaeth bod rhaglenni addysgol a chyfleoedd gweinidogaeth yn yr Eglwys yn y gorffennol wedi canolbwyntio'n anghymesur ar un rhan o'r boblogaeth. Y materion sydd angen i ni eu hystyried ar hyn o bryd yw hil, cyflawniad addysgol blaenorol is ac anabledd. Nid yw amrywiaeth hiliol clerigwyr yr Eglwys yng Nghymru, er enghraifft, yn adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth Cymru. Yn yr un modd, mae'n ymddangos bod pobl sydd â gradd flaenorol yn cael llwybr llyfnach wrth gael eu hannog i ystyried y weinidogaeth hyd at fod yn arweinydd ym maes gweinidogaeth o'i gymharu ag eraill, er bod yr Eglwys yn gadarn o'r farn nad yw cael gradd yn arwydd teilwng o ran a yw Duw yn eich galw i fod yn offeiriad. Gellid dweud yr un peth am bobl sydd ag anableddau, neu niwroamrywiaeth.

Mae'r materion hyn yn gymhleth. Un elfen yw sut y mae addysg a rhaglenni ffurfiannol yn cael eu cynllunio a'u cyflwyno, a'r gefnogaeth a gynigir i bobl. Mae hynny'n amlwg yn ffocws i Athrofa Padarn Sant, ac mae gwaith i'w wneud eto, ond dyma'r elfen hawsaf i weithio arno hefyd. Rydym wedi bod yn gweithio i sicrhau bod rhestrau darllen yn tynnu'n llawn ar ysgolheictod a phrofiad y tu allan i Ewrop a Gogledd America ('dad-drefedigaethu'r cwricwlwm'), ac fel y crybwyllwyd mewn man arall yn yr adroddiad hwn, rydym wedi bod yn gwella'n sylweddol ein systemau ar gyfer cefnogi pobl sydd ag anableddau, ac wedi manteisio ar arian sylweddol gan y Llywodraeth i helpu gyda hynny. Mae Diwinyddiaeth ar gyfer Bywyd wedi gwneud yn dda o ran cefnogi pobl sydd â chyflawniad addysgol blaenorol is. Mae hefyd yn bwysig osgoi'r dybiaeth anuchelgeisiol na ddylai rhai pobl 'fod yn gweithio tuag at gymwysterau cydnabyddedig' – yn hytrach y cwestiwn yw sut i'w cefnogi fel eu bod yn cyflawni hyn. Mae rhagor y mae angen i ni ei wneud o ran meddwl yn ddiwinyddol am anableddau, a pharhau i annog amrywiaeth ymhlith y tîm staff.

Mater anoddach yw recriwtio – y gwir amdani yw, os yw pobl yn meddwl nad yw rhywbeth ar gyfer 'pobl fel fi', nid ydynt yn dod yn ddigon agos i ddarganfod a yw 'pobl fel nhw' yn ffynnu ar y rhaglen mewn gwirionedd. Os mai'r ymateb i fynegiant petrusgar yw rhoi dau lyfr i'w unigolion eu darllen, yna rydym wedi colli pobl nad yw llyfrau yn rhan reolaidd o'u bywydau os gwneir hynny. Mae angen gwneud y rhan hon o'r gwaith wrth gydweithio'n agos ag esgobaethau, gan fod ymgeiswyr lleyg ac ordeiniedig gweinidogol yn 'recriwtio' a chaiff y sawl sy'n betrusgar o'r alwedigaeth eu meithrin o fewn eglwysi ac esgobaethau lleol. Y profiad a gafwyd mewn eglwysi mewn mannau eraill yw mai'r flaenoriaeth yw mentora a meithrin yn ystod y broses ddethol (dyma'r hyn a elwir yn 'Peter Stream' yn yr Eglwys yn Lloegr er enghraifft), ond mae angen i Athrofa Padarn Sant wneud ei siâr hefyd.

Mae cwestiwn hefyd o ran a allai cynlluniau penodol helpu wrth ehangu lefelau cyfranogiad. Mewn mannau eraill, fe welwch y gwaith yr ydym wedi bod yn ei wneud ar raglen brentisiaethau, sydd wedi'i hanelu'n benodol er mwyn helpu i ymgysylltu â phobl dan 25 oed. Mae'n werth nodi, fel y gwelwch yn yr adroddiad ar Ffurfiant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig, fod menywod gydag o leiaf yr un faint o gynrychiolaeth â dynion ar ein rhaglenni.

Yn 2021-2022 dechreuodd Athrofa Padarn Sant ganolbwyntio ar yr ymdrechion hyn. Wrth i ni symud i 2022-23, gydag arweiniad y Panel Ansawdd a Safonau newydd, a chan weithio gyda'r Cyfarwyddwr newydd ar gyfer Datblygu'r Weinidogaeth, rydym yn gobeithio gweld meincnodau a chynlluniau clir yn cael eu sefydlu.



# Adroddiad y Cyfarwyddwr Gweithrediadau

Mae ochr weithrediadau Athrofa Padarn Sant yn cwmpasu pob maes nad yw'n ymwneud ag addysgu a dysgu. Mae hyn yn cynnwys gofalu am adeiladau a lleoliadau, arlwyo a chadw tŷ, y gofrestrfa, sicrhau ansawdd a'r gwaith gweinyddol sylweddol sydd angen ei wneud er mwyn gweithredu sefydliad addysgol preswyl. Mae'r rolau o fewn y strwythur staffio yn amrywiol, ond mae gan bob un ohonynt un diben yn gyffredin, sef bod y dysgwyr wrth wraidd popeth y mae Athrofa Padarn Sant yn ei wneud. Mae'r tîm ymroddedig yn ymdrechu i wella pob agwedd ar waith Athrofa Padarn Sant yn barhaus. Maent yn hollbwysig wrth greu awyrgylch sy'n ennyn dysgu a datblygiad ysbrydol.

Wrth i'r gwaith y gofynnir i Athrofa Padarn Sant ei wneud esblygu, ac wrth i'r gofynion allanol a'r amgylchedd newid, mae'n rhaid i'r gwaith a wneir gan y staff gweithrediadau newid er mwyn parhau'n effeithiol. Eleni, dechreuwyd ad-drefnu'r tîm i sicrhau ei fod yn gallu sicrhau bod Athrofa Padarn Sant yn gallu cyflawni gofynion yr Eglwys yng Nghymru a bodloni ei rhwymedigaethau fel darparwr addysg uwch. Mae'r ad-drefnu hwn wedi canolbwyntio ar sicrhau bod gan y Cyfarwyddwr Gweithrediadau gapasiti ar gyfer gwaith strategol, gwella ansawdd a llywodraethu, creu adnoddau digidol a chasglu a rheoli data. Y gobaith yw y bydd y gwaith ad-drefnu yn cael ei gwblhau y flwyddyn nesaf.

Mae safle Athrofa Padarn Sant, Caerdydd, mewn cyflwr da o ystyried ei oedran, ond fel gyda phob adeilad mae cynnal a chadw rheolaidd yn hanfodol. Mae rhywfaint o waith cynnal a chadw a gynlluniwyd wedi'i wneud eleni. Roedd hyn yn cynnwys gwaith atgyweirio ar rai o'r toeon, gwaith maen a chafnau a pheipiau glaw gan ddatrys ambell broblem o ran tamprwydd. Dechreuwyd ar waith ar gynlluniau i adnewyddu'r system wresogi, a thrwy hynny leihau ôl-troed carbon Athrofa Padarn Sant.

Fe wnaeth Covid amharu'n uniongyrchol ar weithrediadau lawer yn llai eleni o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol, er bod yn rhaid aildrefnu un cwrs preswyl, ac mae staff yn dal i orfod cefnogi dysgwyr sydd wedi colli sesiynau oherwydd salwch. Mae'r effeithiau ar les meddwl dysgwyr yn barhaus, yn enwedig ymhlith y caplaniaid iechyd a milwrol ar gwrs yr MA Astudiaethau'r Gaplaniaeth.

## STAFFIO

Yn ystod pandemig Covid, roedd niferoedd y staff gweithrediadau yn is na'r arfer, gan nad oedd unrhyw staff arlwyo ac ychydig iawn o staff glanhau, pan nad oeddem yn gallu gweithredu rhyw lawer o ran addysgu wyneb yn wyneb. Wrth ddychwelyd i'r trefniadau arferol, penodwyd staff arlwyo a chadw tŷ. Mae'r ddau gogydd newydd (Paul yw enw'r ddau!) yn ymwybodol iawn o'r amgylchedd, ac wedi bod yn gwneud newidiadau cadarnhaol iawn gan gynnwys gweithio gyda'r garddwr i dyfu cynnyrch ffres a phrynu bwyd wedi'i dyfu'n lleol, yn ei dymor. Maent yn gweithio'n galed i ddarparu bwyd iachus ond blasus iawn.



## PERTHYNAS ATHROFA PADARN SANT GYDA SEFYDLIADAU ALLANOL

Mae gan Athrofa Padarn Sant berthnasoedd ag ystod amrywiol o sefydliadau sy'n cyfrannu at sicrhau ansawdd, naill ai drwy osod safonau neu fonitro safonau.

## CYNGOR CYLLIDO ADDYSG UWCH CYMRU (CCAUC)

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yw'r corff cyhoeddus sy'n gweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a darparwyr addysg uwch.

Gan hynny, mae'n un o'r prif gyrff allanol y mae Athrofa Padarn Sant yn gweithio gydag ef. Mae perthynas Athrofa Padarn Sant â CCAUC yn wahanol i'r berthynas sydd gan CCAUC â phrifysgolion. Gelwir Athrofa Padarn Sant yn Ddarparwr Addysg Uwch Amgen. Mae cyrsiau Athrofa Padarn Sant yn mynd drwy broses a elwir yn ddynodiad cwrs er mwyn i'n myfyrwyr allu cael mynediad at y Lwfans Myfyrwyr Anabl a, lle bo'n briodol (e.e. Myfyrwyr gradd Meistr), i allu manteisio ar gyllid myfyrwyr ar ffurf benthyciadau a grantiau. Bob blwyddyn, mae CCAUC yn cynnal ymarfer monitro ar ran Llywodraeth Cymru i asesu a fydd cyrsiau'r flwyddyn ganlynol yn cael eu dynodi. Mae'r ymarfer hwn wedi'i gynllunio i sicrhau bod Athrofa Padarn Sant yn bodloni safonau ansawdd, yn cyflawni blaenoriaethau addysgol Llywodraeth Cymru, megis ehangu lefelau cyfranogiad a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn addysg, yn cael ei llywodraethu'n dda ac mewn sefyllfa ariannol iach.

Mae CCAUC yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gael eu hadolygu'n rheolaidd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch, sef yr elusen y mae'n ei chomisiynu i fesur ansawdd mewn sefydliadau addysg uwch.

Fel rhan o drefniadau diwygio addysg drydyddol sy'n cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru, bydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn cymryd lle CCAUC. Bydd hyn yn golygu rhai newidiadau yn y gofynion ar gyfer darparwyr amgen fel Athrofa Padarn Sant, er nad yw manylion y newidiadau hyn wedi'u cadarnhau eto.

## YR ASIANTAETH YSTADEGAU ADDYSG UWCH

Mae'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch yn casglu, yn cadarnhau ac yn lledaenu data am addysg uwch yn y DU ar ran ei Gwsmeriaid Statudol. Mae'n gweithio gyda darparwyr addysg uwch ym mhob un o'r pedair gwlad, gan gydweithio â nhw i gasglu a churadu un o brif ffynonellau data addysg uwch y byd. Mae'r data a gesglir yn helpu llywodraethau'r gwledydd i asesu a yw darparwyr addysg uwch yn diwallu amcanion y llywodraethau.

## SWYDDFA'R ARFARNWR ANNIBYNNOL AR GYFER ADDYSG UWCH

Fe wnaeth Deddf Addysg Uwch 2003 ei gwneud yn ofynnol i gorff annibynnol gael ei sefydlu i gynnal cynllun cwynion ar gyfer myfyrwyr yng Nghymru a Lloegr, a dewiswyd Swyddfa'r Arfarnwr Annibynnol i gynnal y cynllun hwn. Gall myfyriwr sy'n anfodlon â phrosesau cwynion mewnol ei brifysgol ar gyfer ei gwrs academaidd fynd â'r gŵyn at Swyddfa'r Arfarnwr Annibynnol. Mae Swyddfa'r Arfarnwr Annibynnol yn darparu cyfoeth o adnoddau a hyfforddiant i sefydliadau er mwyn helpu i atal sefyllfaoedd lle gallai cwynion godi. Rydym unwaith eto'n falch nad oes unrhyw gyfeiriadau wedi'u gwneud at Swyddfa'r Arfarnwr Annibynnol gan unrhyw fyfyrwyr yn Athrofa Padarn Sant, sy'n dangos os yw materion yn codi, y gallwn eu datrys yn ddidrafferth o fewn y sefydliad.

## PRIFYSGOLION DILYSU

Ar hyn o bryd, mae Athrofa Padarn Sant yn gweithio gyda dwy brifysgol ddilysu:

- Prifysgol Durham
- Prifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant

Mae contract y myfyriwr gydag Athrofa Padarn Sant, a daw'r dyfarniad terfynol y mae'r myfyriwr yn ei dderbyn gan y brifysgol. Yn y ddau achos, mae'r rhaglen yn cael ei dilysu gan y brifysgol ac mae Athrofa Padarn Sant yn cyflwyno'r rhaglen honno yn unol â rheoliadau'r brifysgol. Trefnir y bartneriaeth gyda Durham drwy gynllun Gwobrau Cyffredin yr Eglwys yn Lloegr. Mae'r Gwobrau Cyffredin yn bartneriaeth tair ffordd rhwng Sefydliad Addysg Diwinyddol, yr Eglwys yn Lloegr ac eglwysi eraill, a Phrifysgol Durham. Mae'r trefniant gyda Phrifysgol Durham yn cwmpasu'r cyrsiau ôl-radd a addysgir sy'n cael eu cynnig gan Athrofa Padarn Sant (Caplaniaeth, Diwinyddiaeth, a Phlant, Pobl Ifanc a Theuluoedd). Mae'r trefniant gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn cwmpasu'r cyrsiau israddedig (BTh Diwinyddiaeth, Diploma addysg uwch mewn Diwinyddiaeth, a'r Dystysgrif addysg uwch mewn Diwinyddiaeth). Yn y ddau achos, mae'r brifysgol ac Athrofa Padarn Sant yn cytuno i rannu cyfrifoldebau sy'n sicrhau bod profiad myfyrwyr ac ansawdd y rhaglen yn hollbwysig, ac mae union fanylion y ddwy gytundeb yn wahanol i'w gilydd. Mae'r cytundebau dilysu yn rhwymo Athrofa Padarn Sant i gyfundrefn lle mae'n rhaid cyflwyno data, adrodd ac adolygu.


Yn ogystal â'r trefniadau gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Durham, mae Athrofa Padarn Sant hefyd mewn cyfnod 'diweddu'r addysgu' mewn cytundeb partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd ar gyfer MTh Astudiaethau'r Gaplaniaeth ac MTh Diwinyddiaeth. Mae'r trefniant hwn yn cynnwys nifer fach iawn o fyfyrwyr sy'n cwblhau eu hastudiaethau yng Nghaerdydd. Disgwylir i'r trefniant hwn ddod i ben o fewn y flwyddyn academaidd nesaf.

## IS-ADRAN Y WEINIDOGAETH, YR EGLWYS YN LLOEGR

Mae Athrofa Padarn Sant yn croesawu'r adolygiadau rheolaidd y mae'n ofynnol iddi eu cynnal gan ei phrifysgolion dilysu a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd gan ei bod yn cydnabod bod cael safbwynt gwrthrychol, allanol yn amhrisiadwy wrth helpu i wella ansawdd. Mae Athrofa Padarn Sant yn dewis gwahodd Is-adran y Weinidogaeth yn yr Eglwys yn Lloegr i gynnal Adolygiad Allanol Cyfnodol o Ffurfiant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig a hyfforddiant i Weinidogion Trwyddedig Newydd er mwyn cael barn arbenigol annibynnol ar ei hyfforddiant cychwynnol i weinidogion. Disgwylir i adolygiad gael ei gynnal ym mis Hydref 2022.



# Ffigurau o ran Incwm a Gwariant (MEDI 2021 I AWST 2022)




## Cyfanswm Gwariant = **£2,674,176** Cyfanswm Incwm = **£246,114**

**Nodiadau:**

Ymddengys fod cynnydd sylweddol mewn gwariant eleni (31%) ond mae sawl peth i'w nodi fel eglurhad:

i. Yn 2021-2022, dychwelwyd i lefelau cyn-Covid o ran ein darpariaeth. Mae'r rhan fwyaf o hyfforddiant Athrofa Padarn Sant yn cael ei ddarparu'n breswyl, naill ai ar safle Athrofa Padarn Sant yng Nghaerdydd, neu mewn lleoliadau llogi ledled y wlad. Felly, cynyddodd Costau Adeiladau a Lleoliadau o £227,222 yn 2020-2021 i £644,649 yn 2021-2022

ii Cynyddodd costau staffio hefyd wrth i staff arlwyo a chadw tŷ gael eu cyflogi.

iii Gwnaed gwaith cynnal a chadw angenrheidiol gwerth £230,000.

iv Mae'r cynnydd ym mhwyntiau i. a iii. gyda'i gilydd yn fwy na'r cynnydd mewn gwariant, sy'n golygu bod Athrofa Padarn Sant wedi gwneud arbedion sylweddol mewn meysydd eraill er mwyn cadw costau i lawr.

Bu cynnydd mewn incwm o 32%. Mae hyn am ddau reswm yn bennaf: dychwelyd at y mathau o weithgarwch preswyl yr ydym yn codi ffi amdanynt, yn bennaf cyrsiau preswyl graddau Meistr, ac ail-lansio cyrsiau byr Dechrau Caplaniaeth wyneb yn wyneb, a hynny'n llwyddiannus iawn. Y llynedd, roedd Covid yn golygu nad oeddem yn gallu cyflawni llawer wyneb yn wyneb, ac effeithiodd hyn ar ein hincwm.

| | |
|---|---|
| Costau Staff | Yn cynnwys yr holl gostau staff (Pennaeth, Tiwtoriaid, Staff Gweinyddol, Arlwyo, Glanhau a Chynnal a Chadw) |
| Costau Craidd | Yn cynnwys cyhoeddusrwydd, cyfieithu i'r Gymraeg a chostau swyddfa |
| Cyfleusterau ar gyfer Cyrsiau Preswyl a Digwyddiadau Undydd | Yn cynnwys cynnal a chadw Athrofa Padarn Sant yng Nghaerdydd yn ogystal â chostau llogi cyfleusterau y tu allan i Gaerdydd ar gyfer Ffurfiant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig, Hyfforddiant Gweinidogion Trwyddedig Newydd a Datblygiad Gweinidogol Parhaus. |
| Costau Adnoddau | Yn cynnwys adnoddau ffisegol ac adnoddau ar-lein |
| Costau i Gefnogi Ymgeiswyr | Mae ymgeiswyr sy'n hyfforddi ar sail amser llawn yn derbyn grant i dalu eu costau byw yn ogystal â chostau teithio. Mae ymgeiswyr sy'n hyfforddi'n rhan-amser yn cael grant bach i dalu costau achlysurol, yn ogystal â chostau teithio. |
| Costau Rhaglenni a Phrifysgolion | Yn cynnwys costau dilysu, a chostau addysgu arbenigol allanol |
| Cyfarfodydd Rhwydwaith | Mae yna hefyd ran o'r gyllideb o'r enw Rhwydweithiau, a ddefnyddir ar gyfer cyfarfodydd swyddogion esgobaethol Plant, Ieuenctid a Theuluoedd, Gweithwyr Arloesi a'r bobl sy'n cymryd rhan yng Nghenhadaeth a Gweinidogaeth Cymru. Ond yn ystod y pandemig bu llai o gyfarfodydd wyneb yn wyneb ac felly roedd angen llai o gyllideb ar gyfer y meysydd hynny (ac felly nid ydynt i'w gweld yn y siart uchod). Bydd cyfarfodydd rhwydwaith ar gyfer 2022-23 yn cynnwys rhai cyfarfodydd ar-lein a rhai wyneb yn wyneb, a bydd lefelau priodol o gyllid yn cael eu cynnwys yn y gyllideb. |
| Incwm | Mae hyn yn bennaf yn cynnwys ffioedd cyrsiau ar gyfer astudiaethau ôl-radd a chyrsiau byr Dechrau Caplaniaeth. |



# Edrych tua 2022-2023

Bydd dwy elfen allweddol yn siapio Athrofa Padarn Sant wrth iddi edrych tua 2022-23. Yn gyntaf mabwysiadwyd dogfen yn gosod cyfeiriad strategol newydd ar gyfer Athrofa Padarn Sant gan Fainc yr Esgobion. Bydd hyn yn creu cyswllt agos rhwng Athrofa Padarn Sant a chyfeiriad strategol a gweledigaeth sy'n datblygu ar gyfer yr eglwys gyfan wrth i ni ganolbwyntio gyda'n gilydd ar yr heriau a'r cyfleoedd cenhadol sydd o'n blaenau. Yn ail, mae adroddiad yr Adolygiad Allanol Cyfnodol yn debygol o nodi ystod o welliannau a argymhellir, a fydd yn gosod agenda ar gyfer yr Athrofa.





ATHROFA **PADARN** SANT
ST **PADARN'S** INSTITUTE

Am fwy o wybodaeth ewch at ein gwefan
**www.stpadarns.ac.uk**
neu gysylltu ar
**info@stpadarns.ac.uk**
neu **02920 563379**

**Athrofa Padarn Sant Caerdydd**
**54 Heol Caerdydd, Caerdydd CF5 2YJ**